# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 7 a 14 Rhagfyr 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Cwestiynau i'r Trefnydd


## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Glyn Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau a yw ei adran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â chwestiynau ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw'r adran yn graddio neu ddosbarthu cwestiynau ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ448749)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Nid oes system ddosbarthu o'r fath yn bodoli yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Prif Weinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48761)

**Y Prif Weinidog:** Mater i'r Ysgrifennydd Parhaol yw hwn, a bydd ef yn ysgrifennu atoch.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47893) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ47898.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cyllido Cymdeithas Ddawns Werin Cymru? (WAQ48698)[W]

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n dosbarthu arian Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r celfyddydau fel arfer yng Nghymru. Mae CCC wedi adolygu ei bortffolio o gleientiaid sy'n cael cyllid ganddo ac wedi penderfynu lleihau nifer y cleientiaid hyn.

Nid yw CCC yn bwriadu atal unrhyw gymorth ariannol i Gymdeithas Ddawns Werin Cymru, ond y bwriad yw ei hariannu trwy'r loteri yn hytrach na thrwy grant. Mae'r gymdeithas yn gymwys i wneud cais am arian o dan un o gynlluniau grant loteri CCC ac yr wyf yn ei hannog i fanteisio ar hynny.

**Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw ei Adran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â Chwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw'r Adran yn graddio neu ddosbarthu Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ448750) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48749.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Gweinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48757) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48761.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn sy'n cael ei wneud i sicrhau bod yr holl gyfleusterau chwaraeon newydd yng Nghaerdydd yn cael eu hadeiladu i safonau Olympaidd? (WAQ48783)

**Alun Pugh:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48551.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi treftadaeth gerddorol Cymru? (WAQ48786)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, yn darparu cyllid sylweddol i gefnogi treftadaeth gerddorol Cymru.

Mae cyfansoddwyr a pherfformwyr o Gymru'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol, o William Mathias, Alun Hoddinott a Bryn Terfel hyd at Tom Jones, y Stereophonics, y Manic Street Preachers ac, yn fwy diweddar, Automatic.

Yr ydym ni yn Llywodraeth y Cynulliad yn falch o gefnogi datblygu fel hyn ar ein treftadaeth gerddorol drwy gyllido cerddoriaeth a chefnogi lleoliadau o safon fyd-eang, megis Canolfan Mileniwm Cymru a chwmnïau fel Opera Cenedlaethol Cymru.

Mae gennym draddodiad o groesawu cerddorion o bob rhan o'r byd i berfformio mewn gwyliau sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol megis Eisteddfod Gydwladol Llangollen, gwyl y Faenol, gwyl jazz Aberhonddu a'r Sesiwn Fawr, sydd i gyd yn cael arian cyhoeddus yn nawdd. Yr un mor bwysig, yr ydym yn buddsoddi yn ein

perfformwyr ein hunain ac yn annog pobl i gymryd rhan mewn cerddoriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o'r arian gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer cerddoriaeth yn cael ei sianelu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae cyngor y celfyddydau yn cefnogi prosiectau mewn clybiau ieuenctid, sefydliadau ieuenctid ac ysgolion ledled Cymru. Yr oedd cyfanswm y buddsoddiad oddeutu £330,000 ar gerddoriaeth ieuenctid yn 2005-06, wedi'i anelu'n benodol at y grwp oedran 15 i 26. Yr ydym hefyd yn darparu cyllid arbennig ychwanegol i sefydliadau fel Opera Cenedlaethol Cymru ar gyfer ei raglen WNO MAX. Mae datblygu cerddoriaeth ieuenctid yn flaenoriaeth i gyngor y celfyddydau. Mae'n ymwneud â'r ddarpariaeth cerddoriaeth ieuenctid ar lawer o lefelau, megis drwy fforwm cerddoriaeth ieuenctid y Gogledd, sy'n darparu rhyngwyneb agos â darparwyr gwasanaethau cerddoriaeth, yn datblygu prosiectau parthau gweithredu cerddoriaeth ieuenctid newydd, ac yn gweithio gyda chyrff cenedlaethol a Phrydeinig eraill ar lawer o lefelau dyfarnu grantiau.

Yn 2006-07 mae bron i £254,000 o gyllid wedi cael ei ddarparu i Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru, sy'n gwasanaethu bron i 400 o gymdeithasau cerddoriaeth amatur drwy Gymru, yn cynnwys cymdeithasau operatig, bandiau pres, corau, grwpiau canu a dawnsio gwerin ac ensembles cerddoriaeth ieuenctid, gan gynrychioli rhyw 25,000 o berfformwyr. Mae hefyd yn gweinyddu Band Pres, Côr, Jazz, Cerddorfa Bres Symffonig a Cherddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru fel rhan o'i raglen i ddatblygu cerddoriaeth ieuenctid. Mae'r ffederasiwn yn cynnig cyllid, cyngor artistig, gwybodaeth a chymorth datblygu, yn annog hyrwyddo cerddoriaeth newydd ac yn cynnal llyfrgell fawr benthyca cerddoriaeth.

Mae Canolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru, sy'n rhan o Dy Cerdd ac wedi'i lleoli yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, yn cefnogi ac yn hyrwyddo pob genre o gerddoriaeth Gymreig. Mae'n casglu ac yn dal sgorau ymchwil cyfansoddwyr o Gymru, recordiadau o gerddoriaeth Gymreig a defnyddiau cyfeirio, ac mae'n darparu gwasanaeth gwybodaeth am gerddoriaeth yng Nghymru. Mae'r ganolfan yn gweithio gyda sefydliadau eraill i gynnig cymorth i gyfansoddwyr drwy annog, hyrwyddo a hysbysebu perfformiadau.

Mae Canolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru yn cynnig cymorth pellach drwy annog perfformiadau o gerddoriaeth Gymreig gartref a thramor. Ynghyd â Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru, mae'r ganolfan yn ceisio annog comisiynau newydd gan gyfansoddwyr Cymreig cyfoes, ac mae'n gweithio gyda chyngor y celfyddydau i sicrhau bod yr archif yn cael copïau ymchwil o weithiau newydd a gomisiynir drwy gynlluniau cyngor y celfyddydau a'r PRS Foundation for New Music.

Mae Canolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru yn cynnal stiwdio recordio yng Nghanolfan Mileniwm Cymru sy'n darparu cyfleusterau recordio i amrywiaeth eang o artistiaid, ensembles a genres. Mae'r ganolfan hefyd yn cyhoeddi nifer o lyfrynnau addysgol, fel ei chyfres o restrau repertoire, ac mae'n ymdrechu i annog gwerthfawrogiad a mwynhad o gerddoriaeth Gymreig, yng Nghymru ac yn rhyngwladol drwy gysylltiadau â chanolfan hysbysrwydd cerddoriaeth eraill ar draws y byd.

O ran cerddoriaeth draddodiadol, mae £60,377 wedi cael ei ddarparu yn 2006-07 i gefnogi'r sefydliad cerddoriaeth werin Trac i hyrwyddo a datblygu cerddoriaeth werin yng Nghymru. Cyd-drefnodd Trac a chyngor y celfyddydau seminar yn Galeri, Caernarfon ar 24 Tachwedd a dynnodd gasgliad eang o gynrychiolwyr ynghyd o bob cwr o Gymru ynghyd â rhai cynrychiolwyr o'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae ein rhwydwaith o wyliau'n darparu cyfleoedd i gerddorion traddodiadol o bob rhan o Gymru i berfformio'n lleol ac mae'n darparu llwyfan i genres cerddorol amrywiol yn cynnwys cerddoriaeth werin. Mae Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen wedi datblygu cystadleuaeth cerddoriaeth Geltaidd gyda'r nod o dynnu cerddoriaeth o Gymru a'n cefndryd Celtaidd o bob cwr o Ewrop a thu hwnt at ei gilydd.

Mae'r archif o gerddoriaeth Gymreig draddodiadol (sydd wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Bangor) yn cael cyllid refeniw gan gyngor y celfyddydau ac mae'n sylfaen bwysig ar gyfer astudio a chasglu deunydd gwerin—offerynnau, gweithiau ysgolheigaidd, ac mae hefyd yn trefnu cyrsiau, cyngherddau ac ati. Dyfarnwyd £20,000 i'r cerddor Michael Parking yng ngwobrau Cymru Greadigol 2005-06 i gynhyrchu cyfansoddiad estynedig wedi'i seilio ar ddeunydd gwerin.

Mae cyngor y celfyddydau wedi bod â rhan yn y gwaith o ddatblygu cynulliad blynyddol y cysylltiadau Celtaidd a gynhelir ym mis Ionawr 2007, a fydd yn cynnwys artistiaid gwerin o Gymru am y tro cyntaf.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47895) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ47898.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y 3,566 o swyddi a gollwyd mewn diwydiant yng Nghymru ers uno'r WDA? (WAQ48688)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Mae'r data diweddaraf yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2006 ac mae'n dangos y lefel uchaf erioed o bobl sy'n byw yng Nghymru mewn cyflogaeth. Hynny yw, yr oedd 1,345,000 o bobl yn gyflogedig, o'i gymharu â 1,323,000 yn y cyfnod o dri mis rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2006, cynnydd net o 23,000 (neu 1.7 y cant)

**Ann Jones:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal am sicrhau dyfodol cynhyrchu adenydd Airbus yn y Gogledd? (WAQ48712)

**Andrew Davies:** Y rhaglen waith allweddol i sicrhau dyfodol tymor hir ffatri Airbus ym Mrychdyn yw cynhyrchu'r adenydd ar gyfer yr Airbus A350XWB newydd arfaethedig. Hwn fydd y model Airbus cyntaf i gael ei adeiladu'n bennaf o ddefnyddiau cyfansawdd, sy'n ysgafnach nag alwminiwm ac yn fwy effeithlon o ran ynni ac yn rhatach i'w redeg felly. Mae datblygu technoleg gyfansawdd i adenydd yn ganolog, nid yn unig i sicrhau bod y DU yn cyfrannu cymaint â phosibl at yr A350XWB, ond hefyd i gynnal statws y DU fel arweinydd ym maes adenydd ar draws y genhedlaeth nesaf o awyrennau Airbus. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad parhaus â swyddogion yr Adran Masnach a Diwydiant ac Airbus UK mewn ymgais i sicrhau'r prosiect tyngedfennol bwysig hwn i'r DU a'r Gogledd.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio trafnidiaeth gymunedol yng Nghymru? (WAQ48715)

**Andrew Davies:** Mae i drafnidiaeth gymunedol botensial enfawr i gyfrannu tuag at gynhwysiant cymdeithasol, gwella hygyrchedd a chynyddu cydlyniad cymdeithasol yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae ein strategaeth drafnidiaeth ddrafft i Gymru yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan drafnidiaeth gymunedol o ran gwireddu ein hagenda trafnidiaeth integredig a'n nodau strategol ehangach. Gall trafnidiaeth gymunedol ddarparu dewis hyblyg a chost-effeithiol yn lle bysiau o faint llawn a sicrhau cysylltiadau da â phrif wasanaethau.

Yr wyf wedi cyflwyno 15 o gynlluniau peilot unigryw i roi prawf ar ddefnyddio gwahanol fodelau o

drafnidiaeth gymunedol wrth ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth i bobl sydd ag anabledd difrifol. Mae’r arwyddion cynnar yn galonogol iawn. Mae nifer fawr wedi manteisio ar y gwasanaethau hyn a chafodd 17,000 o deithwyr eu cludo rhwng mis Mehefin a mis Medi 2006. Eleni, yr wyf hefyd wedi dyrannu grant gwasanaethau trafnidiaeth leol o £9.4 miliwn i gefnogi gwasanaethau trafnidiaeth leol a thrafnidiaeth gymunedol.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud i godi proffil y sector hwn. Yr wyf yn awyddus i weld y sector trafnidiaeth gymunedol yn adeiladu ar y llwyddiant hwn i gryfhau ei rôl yng Nghymru. Mae’r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol yn datblygu cynllun strategol i Gymru i yrru ein cydamcanion ymlaen. Mae hefyd yn gweithio gyda’r consortia trafnidiaeth rhanbarthol i ddylanwadu ar rôl trafnidiaeth gymunedol yn y cynlluniau rhanbarthol i drafnidiaeth gyhoeddus.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd twristiaeth i economïau lleol? (WAQ48716)

**Andrew Davies:** Mae twristiaeth yn elfen bwysig iawn yng ngwead economaidd a chymdeithasol Cymru ac mae’n chwarae rhan allweddol ym mywyd llawer o gymunedau. Ar lefel leol gall ddarparu cyfleoedd arallgyfeirio yn enwedig mewn rhai ardaloedd gwledig lle mae twristiaeth yn gallu bod yn brif gyfrannwr at yr economi leol.

Gan gydnabod hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru—drwy Croeso Cymru—yn darparu £3.5 miliwn y flwyddyn i’n pedair partneriaeth twristiaeth ranbarthol. Mae’r partneriaethau hyn yn cynnwys awdurdodau lleol a busnesau lleol sy’n gweithio gyda’i gilydd i gefnogi datblygiad twristiaeth ar lefel ranbarthol a lleol.

Mae twristiaeth yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau gan effeithio ar nifer o sectorau. O ganlyniad, mae gwariant twristiaeth nid yn unig yn dod â budd uniongyrchol i fusnesau sy’n gysylltiedig â thwristiaeth fel gwesteiau, atyniadau ymwelwyr a thai bwyta ac ati ond mae hefyd yn dod â budd anuniongyrchol i amaethyddiaeth, siopau lleol, cynnyrch lleol a gwasanaethau. Mewn ardaloedd gwledig, mae cyfleusterau hamdden a digwyddiadau diwylliannol yn aml yn ddibynnol ar wariant twristiaeth.

Yn aml, mae datblygiadau twristiaeth a gwasanaethau cysylltiol yn gallu sbarduno buddsoddiad pellach yn yr ardal gan helpu i greu delwedd gadarnhaol i’r ardal a gwella’r cyfleusterau a’r gwasanaethau i’r gymuned leol.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau cyflogaeth? (WAQ48717)

**Andrew Davies:** Amcangyfrifir bod y lefel gyflogaeth yng Nghymru rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2006 yn 1,345,000, y lefel uchaf erioed a chynnydd o 130,000 neu 11.0 y cant ers datganoli ym 1999. Cymru sydd wedi gweld y cynnydd canrannol mwyaf mewn cyflogaeth dros y cyfnod hwn o holl wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr.

**Nick Bourne:** Am ba hyd y mae’r gwaith ffordd yng nghyffiniau Llanbadarn Fynydd ar yr A483 i fod i barhau? (WAQ48740)

**Andrew Davies:** Yr oedd y gwaith i osod wyneb newydd ar yr A483 yn Llanbadarn Fynydd i fod i gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd. Yr oedd y cynllun hwn yn rhan o raglen ehangach o waith i osod wyneb newydd ar y rhan hon o’r A483, gyda gwaith pellach i osod wyneb newydd wedi’i raglennu i gyfeiriad y gogledd. Disgwylir i’r gwaith ar y darn o’r A483 rhwng Llandrindod a’r Drenewydd gael ei gwblhau erbyn y Nadolig.

**Alun Cairns:** Sut y bydd polisi'r Gweinidog i gyfuno gwasanaethau band eang TG y sector cyhoeddus o gymorth i gyflymder cysylltu ar gyfer y sector preifat? (WAQ48742)

**Andrew Davies:** Mae prosiect cyfuno gwasanaethau band eang y sector cyhoeddus yn cael ei roi ar waith gan Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau effeithlonrwydd ac arbedion wrth gaffael a defnyddio capasiti rhwydwaith band eang i gynnal gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Nid yw'r ddarpariaeth gwasanaethau i farchnad ehangach y sector preifat yn rhan o'r cynllun caffael hwn.

**Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw ei Adran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â Chwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw'r Adran yn graddio neu ddosbarthu Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ448752)
***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48749.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog restru pa gynlluniau gwaith ffordd sy'n mynd rhagddynt yng Ngwynedd ar hyn o bryd, a dyddiad tebygol cwblhau pob prosiect? (WAQ48754)

**Andrew Davies:** Dyma'r gwaith ffordd sy'n mynd rhagddo yng Ngwynedd ar hyn o bryd sy'n golygu ymgymryd â gwaith rheoli traffig sylweddol:

| **Ffordd** | **Lleoliad** | **Gwaith** | **Dyddiad Cwblhau Amcangyfrifedig** |
|---|---|---|---|
| A470(T) | Ffordd y Manod /y Brif Heol, Blaenau Ffestiniog | Gosod wyneb newydd | Cyn Nadolig 2006 |
| A487(T) | Cyffordd Penmorfa—Golan | Gosod cyrbau | Cyn Nadolig 2006 |
| A487(T) | Caernarfon, Ffordd y Gogledd | Ailosod prif bibell nwy | Cyn Nadolig 2006 |
| A494(T) | Glan yr Afon, Corwen | Mynediad at fferm wynt newydd | Ion 2007 |
| A5122 | Parc Bryn Cegin, Llandygai | Cylchfan newydd | Chwe 2007 |
| | System gylchu Bangor | Cynllun rheoli traffig | Ion 2006 |
| A499 | Aberdesach | Cynllun gwella ffordd | Ebrill 2007 |
| Class 2 | Talysarn—Nantlle | Gosod ceblau BT | Ion 2007 |
| B4366 | Bethel, Caernarfon | Troedffordd newydd | Rhag 2006 |
| A4086 | Llanrug | Gosod wyneb newydd | Rhag 2006 |
| U/C | Ffordd Santes Helen, Caernarfon | Draenio a gosod wyneb newydd | Rhag 2006 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| U/C | Glasinfryn a Chaerhun, Bangor | Gwaith draenio | canol Rhag 2006 |
| U/C | Clwt y Bont, Deiniolen | Gwaith draenio | canol Rhag 2006 |
| | Ffordd Garth, Bangor | Gosod wyneb newydd ar y droedffordd | canol Rhag 2006 |
| A496 | Hendre Mynach, Llanaber | Prif bibell ddwr | Rhag 2006 |
| A4212 | Cwm Prysor, y Bala | Dwythell BT | Rhag 2006 |
| A4086 | Pont Pen y Gwryd | Cryfhau pont | Rhag 2006 |
| A498 | Pont Aberglaslyn, Beddgelert | Prif bibell ddwr | Rhag 2006 |
| A4085 | Pont Aberglaslyn i Nantmor | Gwaith BT a phrif bibell ddwr | Rhag 2006 |

Efallai y bydd yn rhaid ymgymryd â mân waith/gwaith rheolaidd arall hefyd.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Gweinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48759) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48761.

**Ann Jones:** Faint o bensiynwyr sydd wedi cael tocyn teithio ar fws am ddim yn Sir Ddinbych? (WAQ48765)

**Andrew Davies:** Hyd yma mae Sir Ddinbych wedi rhoi 17,789 o docynnau teithio ar fws am ddim i bensiynwyr.

**Ann Jones:** Faint o gyllid Amcan Un a ddyrannwyd i brosiectau yn Sir Ddinbych, ac a all y Gweinidog restru'r prosiectau hynny? (WAQ48773)

**Andrew Davies:** Yn Sir Ddinbych, mae bron i £30.3 miliwn o grant Amcan 1 wedi cael ei rwymo i 66 o brosiectau lleol, sy'n cynrychioli £71.8 miliwn o fuddsoddiad i gyd yn y prosiectau.

Mae gwefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru www.wefo.wales.gov.uk yn rhoi manylion yr holl brosiectau lleol Amcan 1 sydd wedi cael nawdd gan y bartneriaeth leol ym mhob ardal.

**Ann Jones:** Faint o gyllid o system grant buddsoddi'r Cynulliad a ddyrannwyd i fusnesau yn Nyffryn Clwyd, ac a all y Gweinidog restru'r busnesau hynny? (WAQ48774)

**Andrew Davies:** Mae 56 o gynigion wedi cael eu gwneud dan system grant buddsoddi'r Cynulliad i fusnesau yn etholaeth Dyffryn Clwyd ers i'r cynllun gael ei gyflwyno ar 1 Ebrill 2002. Yr oedd gwerth y cynigion hyn yn gyfanswm o £1,760,301. Mae'r tabl yn rhestru enw'r ymgeisydd a gwerth y cymorth a gynigiwyd.

| **Enw** | **Gwerth y Cynnig £** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| 1st Class Clothing | 20,000 |
| Apollo Products Ltd | 20,000 |
| B.V. Enterprises | 14,700 |
| Bala Brokers (Life and Pensions) Ltd yn masnachu fel A1 Mortgages4U.com | 50,000 |
| Barbara Limacher yn masnachu fel EWMI | 16,500 |
| Bob Francis Crane Hire Ltd | 40,000 |
| Border Boat Builders Ltd | 8,000 |
| Bragdy’r Bryn Cyfyngedig | 18,000 |
| Buckles Investment Services Ltd | 42,000 |
| Cambrian Autoparts North West Ltd | 25,600 |
| Cats & Pipes Ltd | 40,000 |
| County Online Ltd | 50,000 |
| Craig Bragdy Design Ltd | 40,000 |
| CTL (GB) Ltd | 45,000 |
| Darnbridge Ltd | 45,000 |
| Design Reality | 37,000 |
| Don Ross Associates Ltd yn masnachu fel Third Age Callers | 5,001 |
| Elfed Williams yn masnachu fel Cegin Famau Kitchen | 45,000 |
| FH & NW Moore yn masnachu fel Henllan Bread | 30,000 |
| G.O.N Granite & Marble Ltd | 34,500 |
| Gemini Tech | 10,000 |
| Genus Engineering Ltd | 50,000 |
| Gon Granite & Marble Ltd | 24,500 |
| Good Signs | 10,000 |

| | |
|---|---|
| H & D Fitzgerald Ltd | 17,000 |
| H2O Networks Ltd | 50,000 |
| Henllan Bread Colomendy Bakery | 50,000 |
| Hentcho Recycling Services Ltd | 40,000 |
| Impak North Wales Ltd | 50,000 |
| Jewel Box UK Ltd | 20,000 |
| Leader Optec Ltd | 50,000 |
| Mars Jones Ltd | 43,000 |
| Michael Rossall Berry yn masnachu fel Norweft | 35,000 |
| Morris Marble & Granite Co Ltd | 25,000 |
| Myatt Stevenson Turnbull (MST) Magazines Ltd | 50,000 |
| Network Internet Ltd | 12,500 |
| North Wales Sulky | 14,000 |
| P.J. Coatings Ltd | 45,000 |
| Phoenix Optical Glass Ltd | 46,000 |
| Radcom Security Services Ltd | 40,000 |
| Raymond Hodgkiss & Co | 14,000 |
| Red Star Lofts Ltd | 30,000 |
| Snackmix Ltd | 15,000 |
| Cwmni Caws Eryri Cyf | 25,000 |
| Cwmni Caws Eryri Cyf | 15,000 |
| Cwmni Caws Eryri Cyf | 50,000 |
| Spectra Dynamics Ltd | 15,000 |
| Spectra Dynamics Ltd | 32,000 |
| Sprint Fastening Systems Ltd | 50,000 |

| | |
|---|---|
| Talacre Beach Caravan Sales Ltd | 45,000 |
| Thorpe DT Manufacturing Ltd | 20,000 |
| Unsworth Joinery Ltd | 40,000 |
| Utilico Ltd | 32,000 |
| Vickers & Son (Plumbers Merchants) Ltd | 25,000 |
| Voel Coaches | 7,000 |
| Woodford Computer Systems Ltd | 37,000 |

**Ann Jones:** Faint o gyllid, drwy'r cymorth rhanbarthol dewisol, a roddwyd i fusnesau yn Nyffryn Clwyd i helpu i greu a diogelu swyddi, ac a all y Gweinidog restru'r busnesau hynny? (WAQ48775)

**Andrew Davies:** Mae 27 o gynigion o gymorth rhanbarthol dewisol wedi cael eu gwneud yn etholaeth Dyffryn Clwyd ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 1999. Yr oedd gwerth y cynigion hyn yn gyfanswm o £6,115,000. Mae'r tabl yn rhestru enw'r ymgeisydd a gwerth y cymorth a gynigiwyd.

| **Enw** | **Gwerth y Cynnig £** |
|---|---|
| Aldera Ltd | 150,000 |
| Allen Group Ltd | 260,000 |
| Armadillo Solutions Ltd | 245,000 |
| Atlantic Digital Ltd | 190,000 |
| Bastable Jones Upholstery | 40,000 |
| Biocycle Ltd | 175,000 |
| Cape Instruments Ltd | 150,000 |
| Conceptwipes Ltd | 750,000 |
| Craig Bragdy Design Ltd | 90,000 |
| Euro Paper Products UK Ltd | 320,000 |
| Gem Structural Solutions Ltd | 150,000 |
| Greenthumb UK Ltd | 150,000 |

| | |
|---|---|
| Impak Marketing Ltd | 200,000 |
| Impak North Wales Ltd | 235,000 |
| K.M. Environmental Ltd | 100,000 |
| Leader Optec Ltd | 100,000 |
| Microtag Security Marking Ltd | 210,000 |
| Ocean Marine (Research) Ltd | 120,000 |
| Optical Integration Ltd | 200,000 |
| Outside Concepts Ltd | 100,000 |
| Prism UK Medical Ltd | 725,000 |
| Safety Media Ltd | 100,000 |
| SCA Packaging Ltd | 230,000 |
| Springform Ltd | 140,000 |
| Tecno Plast UK Ltd | 750,000 |
| Telsol Ltd | 145,000 |
| Tradeasi Ltd | 90,000 |

**Jonathan Morgan:** A fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n defnyddio'r un meini prawf wrth ddyrannu cyllid cydgyfeirio ag a ddefnyddiwyd ar gyfer Amcan Un? (WAQ48784)

**Andrew Davies:** Penderfynir ar yr adnoddau ar draws y blaenoriaethau drwy drafodaeth â'r Comisiwn Ewropeaidd. Pwyllgor monitro'r rhaglen newydd fydd yn cytuno ar y meini prawf a fydd yn sail i benderfyniadau WEFO am brosiectau unigol, fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaethpwyd o ran datblygu gwasanaethau rheilffordd i deithwyr yng Nghymru? (WAQ48785)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r pedwar consortiwm trafnidiaeth yng Nghymru i ddatblygu gwasanaethau rheilffordd i deithwyr. Mae rheilffordd Bro Morgannwg wedi bod yn llwyddiant enfawr ers i Lywodraeth y Cynulliad ei hailagor y llynedd a disgwylir i hynny ddigwydd eto pan agorir y rheilffordd rhwng Glynebwy a Chaerdydd y flwyddyn nesaf.

Fel y gwyddoch, mae cynyddu capasiti ar y rheilffordd yn rhywbeth yr ydym yn buddsoddi'n drwm ynddo ac mae'r rheilffyrdd prysuraf yng Nghymru i gyd yn cael eu cryfhau fel y mae cerbydau ac adnoddau yn caniatáu. Yr wyf yn darparu cyllid i ymestyn platfformau fel bod modd darparu trenau hirach ar amseroedd

brig.

Mae cyllid ar gyfer gwaith ar gynllun Cwm Rhymni wedi golygu bod modd cynnal gwasanaeth bob 15 munud yn ystod y dydd rhwng Caerdydd a Bargoed drwy Gaerffili.

Mae cyllid ar gael ar gyfer gwaith i ddyblu'r gwasanaeth ar reilffordd Merthyr i wasanaeth bob hanner awr o 2008. Bydd y gwelliannau ar y rheilffordd hon hefyd yn cynnwys moderneiddio gorsaf Abercynon gyda chyfleusterau parcio a mynd ar y trên.

Ailddatblygu gorsaf Casnewydd: bydd gwaith cam un yn dechrau'r mis hwn a bydd yn caniatáu i drenau hirach aros yno o fis Mehefin 2007 drwy ymestyn platfform 4. Mae hyn yn cael ei gyllido gan Network Rail. Bydd cam dau yn dechrau yn haf 2007 gan godi adeilad newydd i'r orsaf, cyfleusterau a maes parcio gyda gwell mynediad a chyfnewidfa rheilffordd-fysiau o flaen yr orsaf. Caiff hyn ei gyllido gan Lywodraeth y Cynulliad, Network Rail a phartneriaid eraill ac mae i gael ei gwblhau yn 2009.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno gorchymyn cyfyngu cyflymder ar gyfer y darn o gefnffordd yr A40 yn Nhrefynwy o Dwnelau Gibraltar drwy'r dref a chan gynnwys yr ardal y tu hwnt i gylchfan Dixton sy'n amgylchynu Lôn Leasebrook a Lôn Newton Court? (WAQ48819)

**Andrew Davies:** Mae cyflwyno'r cyfyngiad cyflymder newydd arfaethedig yn amodol ar gwblhau'r gweithdrefnau statudol yn llwyddiannus. Dylai hynny weld cyfyngiadau cyflymder newydd a mesurau diogelwch eraill yn cael eu sefydlu ar y darn hwn o'r ffordd cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae Trafnidiaeth Cymru'n disgwyl cyhoeddi'r Gorchmynion drafft yn fuan.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei phortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47894) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ47898.

**Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw ei Hadran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â Chwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw'r Adran yn graddio neu ddosbarthu Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ448751) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48749.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Gweinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48758) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48761.

**Ann Jones:** Pa ganran o ddisgyblion a gafodd 5 neu fwy o raddau A* - C yn yr arholiadau TGAU yn 2006 yn Sir Ddinbych, a faint o gynnydd yw hyn er 1997? (WAQ48766)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Yn 2006, cafodd 48.5 y cant o ddisgyblion yn Sir Ddinbych a oedd yn 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd bump neu fwy o TGAU ar raddau A* i C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. Mae hyn yn gynnydd o 4 pwynt canran er 1997 (44.5 y cant).

**Ann Jones:** Faint o ddosbarthiadau yn Sir Ddinbych sydd ar hyn o bryd yn cynnwys mwy na 30 o ddisgyblion? (WAQ48767)

**Jane Davidson:** Credaf eich bod am gael y wybodaeth hon wedi'i dadansoddi fesul cyfnod allweddol.

Yr oedd cyfrifiad maint dosbarthiadau ysgolion cynradd mis Medi 2006 yn dangos bod gan y nifer isod o ddosbarthiadau yn Sir Ddinbych fwy na 30 o ddisgyblion:

> cyfnod allweddol 1: pedwar dosbarth (i gyd yn cynnwys disgyblion a dderbyniwyd i'r ysgol drwy eithriadau a ganiateir o dan y rheoliadau maint dosbarthiadau).
>
> cyfnod allweddol 2: pedwar dosbarth (i gyd yn cynnwys disgyblion a dderbyniwyd i'r ysgol drwy eithriadau a ganiateir).

Caiff gwybodaeth am faint dosbarthiadau ysgolion uwchradd ei chasglu yng nghyfrifiad ysgolion mis Ionawr ac nid yw ond yn cyfeirio at y trydydd cyfnod ar amserlen yr ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad (17 Ionawr 2006). Adroddwyd bod mwy na 30 o ddisgyblion yn y nifer isod o ddosbarthiadau:

> cyfnod allweddol 3: 20 dosbarth
>
> cyfnod allweddol 4: wyth dosbarth

**Ann Jones:** Faint o swyddi dysgu ychwanegol a grëwyd yn Awdurdod Addysg Lleol Sir Ddinbych er 1997? (WAQ48768)

**Jane Davidson:** Nid oes gwybodaeth ar gael yn ganolog am y nifer o swyddi dysgu ychwanegol sydd wedi cael eu creu yn Sir Ddinbych. Mae'r casgliad data blynyddol am 'athrawon mewn swydd' yn cyfrif y nifer o athrawon cyfwerth ag amser llawn sydd mewn swydd ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Mae'r ffynhonnell hon yn dangos bod 829 o athrawon cyfwerth ag amser llawn mewn swydd yn Sir Ddinbych ym mis Ionawr 1997 o'i gymharu â 1,000 ym mis Ionawr 2006.

**Ann Jones:** Faint o blant ysgol sy'n derbyn llaeth am ddim yn ysgolion awdurdod lleol Sir Ddinbych? (WAQ48769)

**Jane Davidson:** Dim ond ar un diwrnod yn y flwyddyn academaidd y mae gwybodaeth yn cael ei chasglu am y nifer o blant sy'n manteisio ar laeth am ddim yn yr ysgol. Dangosodd cyfrifiad dydd Mawrth, 17 Ionawr 2006, fod 3,482 o ddisgyblion yn yr ysgolion a gynhelir gan yr AALl yn Sir Ddinbych wedi cael llaeth ysgol am ddim.

**Ann Jones:** Faint o fyfyrwyr sy'n hawlio grant dysgu'r Cynulliad ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach yn ardal awdurdod lleol Sir Ddinbych? (WAQ48770)

**Jane Davidson:** Ymgeisiodd 500 o fyfyrwyr yn llwyddiannus am grant dysgu'r Cynulliad ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach yn ardal awdurdod lleol Sir Ddinbych yn 2005-06. (Mae'r ffigur uchod wedi cael ei dalgrynnu i'r 10 agosaf.)

**Ann Jones:** Faint o arian a fuddsoddwyd yn Sir Ddinbych i ddod ag adeiladau ysgolion i fyny i'r safon fel eu bod yn addas i'r pwrpas? (WAQ48771)

**Jane Davidson:** Rhwng 2002-03 a 2005-06, gan gynnwys grantiau, mae £19.8 miliwn wedi cael ei fuddsoddi yn Sir Ddinbych ar adeiladau ysgolion.

**Ann Jones:** Faint o bobl a gafodd gymorth i fynd yn ôl i weithio fel rhan o gynllun y Fargen Newydd yn Nyffryn Clwyd? (WAQ48772)

**Jane Davidson:** Mae'r ffigurau diweddaraf a ryddhawyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (yn gywir hyd at ddiwedd mis Mai 2006) yn dangos, o'r 111,500 o bobl yng Nghymru sydd wedi cael cymorth i ymgymryd â gwaith drwy'r Fargen Newydd ers lansio'r rhaglen ym 1998, fod o leiaf 2,130 yn dod o Ddyffryn Clwyd. Mae'r ffigur hwn yn uwch fyth, gan nad oes data am y rhai a ymgymerodd â swyddi o dan y Fargen Newydd i Bobl Anabl yng Nghymru ar gael ar lefel etholaeth seneddol neu etholaeth Cynulliad.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am osod systemau di-wifr (wi-fi) mewn ysgolion yng Nghymru ac unrhyw beryglon posibl i iechyd disgyblion? (WAQ48780)

**Jane Davidson:** Brand a drwyddedwyd yn wreiddiol gan y Wi-Fi Alliance i ddisgrifio'r dechnoleg y seilir rhwydweithiau ardal leol di-wifr arni yw 'Wi-Fi'. Yr Asiantaeth Hybu Iechyd sy'n rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglyn â diogelu'r gymuned rhag peryglon ymbelydredd ac nid yw o'r farn bod problemau o ran diogelwch rhwydweithiau ardal leol di-wifr. Nid yw'r pwer trawsyrru mwyaf a ganiateir gan reoliadau'r Swyddfa Gyfathrebiadau yn ddim ond un filfed rhan o'r hyn sy'n cael ei allyrru gan fylb golau domestig ac mae'n llawer llai na phopty microdon, sy'n gweithredu ar yr un amledd.

Materion i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol yw penderfynu ynglyn â gosod systemau di-wifr mewn ysgolion. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn casglu gwybodaeth yn ganolog am y systemau sy'n cael eu gosod mewn ysgolion.

**John Griffiths:** Sawl ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru sy'n defnyddio deunydd 'creadaeth' wrth ddysgu gwyddoniaeth? (WAQ48804)

**Jane Davidson:** Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn casglu gwybodaeth am ba ddeunyddiau a ddefnyddir gan ysgolion unigol wrth ddysgu pynciau neilltuol nac yn monitro hynny. Ein polisi yw y dylai ysgolion gyflwyno rhaglen astudio statudol y cwricwlwm cenedlaethol o ran gwyddoniaeth ym mhob cyfnod allweddol. Nid yw creadaeth yn rhan o'r cwricwlwm gwyddoniaeth.

**John Griffiths:** Beth yw polisi Cynulliad Cymru ar ddysgu 'creadaeth' yn lle damcaniaeth esblygiad Darwin yn ysgolion Cymru? (WAQ48805)

**Jane Davidson:** Polisi Llywodraeth y Cynulliad yw y dylai ysgolion gyflwyno rhaglen astudio statudol y cwricwlwm cenedlaethol o ran gwyddoniaeth ym mhob cyfnod allweddol. Nid yw creadaeth yn rhan o'r cwricwlwm gwyddoniaeth.

**Laura Anne Jones:** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n gweithio gydag ysgolion er mwyn ehangu'r dewis o weithgareddau sydd ar gael i ddisgyblion yn y cwricwlwm addysg gorfforol a chwaraeon? (WAQ48806)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod y rôl bwysig y mae chwaraeon ac addysg gorfforol yn ei chwarae yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc i ddatblygu sgiliau bywyd fel gwaith tîm ac arweinyddiaeth yn ogystal â gwella ffitrwydd corfforol. Dyna pam y mae addysg gorfforol, yn cynnwys gweithgareddau dan do ac awyr agored, yn rhan annatod o’r cwricwlwm cenedlaethol i bob person ifanc ym mhob un o’r pedwar cyfnod allweddol.

Wrth fodloni gofynion rhaglen astudio’r cwricwlwm cenedlaethol o ran addysg gorfforol, mae’n ofynnol i bob ysgol ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau fel y gallant ddatblygu a defnyddio eu sgiliau mewn sefyllfaoedd sy’n briodol i’w gallu. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 3, dylai disgyblion ymgymryd ag ymarfer a gemau sy’n berthnasol i iechyd a dylent hefyd gael y cyfle i gymryd rhan mewn dau weithgaredd o blith gymnasteg, dawns, nofio, athletau a gweithgareddau awyr agored mentrus. Fodd bynnag, o fewn y fframwaith hwn, mater i bob ysgol yw penderfynu ar y cymysgedd gweithgareddau a gynigir i ddisgyblion yng nghyd-destun cynllun gwaith yr ysgol a’r cyfleusterau sydd ar gael.

Yr wyf wedi ymrwymo’n llwyr i wella ansawdd ac ystod y cyfleoedd a ddarperir i ddisgyblion. Hyd yma, mae cyfanswm o £6.9 miliwn wedi cael ei ddarparu i Gyngor Chwaraeon Cymru i arwain y gwaith o weithredu cynllun gweithredu addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion Llywodraeth y Cynulliad. Dan arweiniad y cyngor chwaraeon, mae gwaith yn cael ei gefnogi yn ardal pob awdurdod lleol i dynnu ysgolion a phartneriaid lleol ynghyd er mwyn gwella’r ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys rhannu arbenigedd staff, cyfleusterau ac arferion da er mwyn galluogi ysgolion cynradd, yn arbennig, i gynnig ystod eang o weithgareddau. Mae’r cyngor chwaraeon hefyd wedi darparu hyfforddiant a chymorth arbenigol i ymarferwyr i wella’r ffordd o gyflwyno gweithgareddau fel gymnasteg a dawns.

Y nod yw gweithio tuag at darged o 2 awr o amser cwricwlwm i addysg gorfforol bob wythnos. Yn ychwanegol, erbyn 2010 bwriedir i bob ysgol fod yn rhan o bartneriaethau addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion. Mae data a gasglwyd gan y cyngor chwaraeon ac Estyn yn cadarnhau bod ysgolion sy’n cymryd rhan yn y cynllun addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion yn gwneud cynnydd da. Yr oeddwn yn falch o weld hefyd fod y prif arolygydd, yn ei hadroddiad blynyddol am 2004-05, yn dod i’r casgliad bod 99 y cant o’r dosbarthiadau addysg gorfforol a arolygwyd mewn ysgolion cynradd a 90 y cant o’r dosbarthiadau mewn ysgolion uwchradd yn cael eu hasesu ar radd 3 neu’n well.

Mae’r cynllun addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion yn ategu cynlluniau eraill dan arweiniad y cyngor chwaraeon i wella’r cyfleoedd ar gyfer chwaraeon allgyrsiol. Yn arbennig, mae Campau’r Ddraig, sy’n targedu ysgolion cynradd, yn canolbwyntio ar bêl-droed, pêl-rwyd, rygbi, athletau, hoci, tenis a chriced. Hyd yma mae 93 y cant o’r ysgolion cynradd cymwys yn ymwneud â Champau’r Ddraig. Diben y rhaglen 5x60 a lansiwyd yn ddiweddar yw ymestyn y gwaith hwn i ysgolion uwchradd. Bydd y gweithgareddau’n cynnwys cydbwysedd o chwaraeon cystadleuol traddodiadol, gweithgarwch adloniadol anffurfiol a gweithgareddau lle ceir hyfforddiant. Mae 28 o ysgolion ar draws Cymru yn cymryd rhan yn 5x60 ar hyn o bryd ac mae 12 ysgol arall i fod i ymuno â’r rhaglen ym mis Ionawr 2007. Y targed yw y bydd holl ysgolion uwchradd Cymru yn rhan o’r rhaglen erbyn 2009.

Yr ydym hefyd wedi gweithio’n agos gyda’r Gronfa Loteri Fawr i roi’r rhaglen addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion ar waith. Yn gyfan gwbl, mae £48 miliwn wedi cael ei ddarparu gan y Gronfa Loteri Fawr i wella’r cyfleusterau ar gyfer addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion yng Nghymru.

Mae manylion llawn y gofynion ym mhob cyfnod allweddol wedi cael eu nodi yn 'Addysg Gorfforol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru' a gyhoeddwyd gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae modd cael copi o'r canllawiau drwy wefan www.new.wales.gov.uk. Fel rhan o adolygiad Llywodraeth y Cynulliad o'r cwricwlwm ysgol a'r trefniadau asesu, mae ymgynghoriad am orchmynion pwnc diwygiedig y cwricwlwm cenedlaethol, yn cynnwys addysg gorfforol, yn dechrau ar 8 Ionawr 2007 ac yn gorffen ar 30 Mawrth.

**Lynne Neagle:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod prentisiaethau ar gael ar gyfer myfyrwyr adeiladu yng Nghymru? (WAQ48817)

**Jane Davidson:** Mae ymchwil wedi dynodi adeiladu fel sector allweddol yn economi Cymru ac ym mis Mawrth eleni cytunodd is-bwyllgor y Cabinet ar swyddi a sgiliau bod angen datblygu strategaeth o ran yr amgylchedd adeiledig i:

wella'r ffordd o flaengynllunio twf economaidd yn y sector;

symud tuag at ymdrin â chymorth busnes a darpariaeth ddysgu mewn ffordd fwy strategol a chydlynol, gan ymateb i anghenion y sector fel y maent yn ymddangos; ac i

gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd, cymdeithasol ac economaidd, sy'n deillio o fuddsoddiad wedi'i gynllunio mewn prosiectau.

Mae Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda'r pedwar cyngor sgiliau sector sy'n gweithredu ym maes yr amgylchedd adeiledig, a chyrff cynrychiadol eraill, i ddatblygu'r strategaeth bwysig hon i'r sector o ran swyddi, sgiliau a chymorth busnes. Mae'r gwaith yn cynnwys gweithredu i helpu i ganfod sut mae modd cysylltu cyfleoedd hyfforddi, yn cynnwys prentisiaethau modern, â phrosiectau adeiladu mawr, ynghyd â datblygu cynlluniau prentisiaethau ar y cyd i alluogi busnesau bach a chanolig eu maint i ymwneud â darparu prentisiaethau modern.

Bydd cynllunio'r ddarpariaeth yn well, ar sail gwell gwybodaeth oddi wrth y cynghorau sgiliau sector, ynghyd â gwell gwybodaeth am gyfleoedd gyrfaol, hefyd yn help i sicrhau bod y bobl iawn yn gallu manteisio ar y math iawn o hyfforddiant i ddiwallu anghenion cyflogwyr a dyheadau unigolion.

Yn ddiweddar mae'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi dechrau ar ymarferiad i wahodd tendrau am ddarpariaeth ddysgu seiliedig ar waith yng Nghymru, sy'n cynnwys rhaglenni prentisiaeth. Ar ôl i'r broses gael ei chwblhau, bydd opsiynau contract ar gael i ddarparwyr llwyddiannus am y cyfnod o 2007 hyd at 2010. Nod y tendr yw sicrhau bod dysgu seiliedig ar waith yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n adlewyrchu blaenoriaethau addysg a hyfforddiant y Cynulliad a sicrhau gwerth am arian drwy wella ansawdd y cyflwyno. Mae hyn yn unol â 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'.

Bydd yr asesiad dysgu a sgiliau cenedlaethol a'r adroddiadau datganiad rhanbarthol o anghenion a blaenoriaethau yn cael eu diweddaru yn 2007 ac yn y blynyddoedd dilynol. Bydd disgwyl i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith gyflwyno gwybodaeth gynllunio sy'n dangos ymrwymiad parhaus i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau newid cenedlaethol a rhanbarthol a nodir ond gan ymateb hefyd i anghenion a galwadau'r ardal leol am ddysgu.

Yn ogystal, fel rhan o'r cynllun gweithredu 14-19, yr ydym yn datblygu nifer o lwybrau dysgu peilot seiliedig

ar waith, a bydd un ohonynt yn y sector adeiladu. Bydd hyn yn help i ennyn diddordeb pobl ifanc mewn gyrfaoedd yn y sector holl bwysig hwn.

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47896) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ47898.

**Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw ei Adran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â Chwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw'r Adran yn graddio neu ddosbarthu Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ448753) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48749.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Gweinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48760) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48761.

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu ffigur cyffredinol o ran cost gweithredu'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yng Nghymru? (WAQ48790)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Yn y broses o gael eu gweithredu y mae darpariaethau'r Ddeddf, felly nid oes gwybodaeth lawn am y costau drwyddynt draw ar gael eto. Fodd bynnag, mae'r Cynulliad wedi dyrannu rhyw £18 miliwn dros y pum mlynedd diwethaf ar gyfer gweithredu'r hawl mynediad cyhoeddus newydd a darpariaethau eraill yn y Ddeddf. O'r swm hwn, defnyddiodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ryw £5 miliwn rhwng 2001 a 2005 i fapio'r ardaloedd mynediad newydd a gwneud gwaith cysylltiol, ac mae £2.4 miliwn ychwanegol y flwyddyn wedi cael ei ddarparu er 2001-02 i awdurdodau lleol ar gyfer eu dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf (yn ymwneud â mynediad i gefn gwlad, rheoli hawliau tramwy cyhoeddus a fforymau mynediad lleol). Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cael £930,000 ychwanegol dros dair blynedd (2002-05) ar gyfer ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf fel awdurdod perthnasol a thuag at gostau cyflwyno'r ystâd goedwigaeth rydd-ddaliadol i fynediad cyhoeddus.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o safleoedd tir llwyd yng Nghymru? (WAQ48793)

**Carwyn Jones:** Mae polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran tir llwyd wedi'i gynnwys ym 'Mholisi Cynllunio Cymru', sy'n datgan y dylid, pa le bynnag y mae hynny'n bosibl, ei ddefnyddio yn lle tir glas. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod nad yw pob tir llwyd yn addas i'w ddatblygu. Gallai hynny fod, er enghraifft, oherwydd ei leoliad, presenoldeb rhywogaethau sy'n cael eu hamddiffyn neu gynefinoedd gwerthfawr neu dreftadaeth ddiwydiannol, neu oherwydd ei fod wedi ei lygru'n ddifrifol.

Nid oes targed penodol o ran ailddefnyddio tir llwyd er mwyn caniatáu ar gyfer amgylchiadau lleol. Mae

‘Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai’ yn cynnig system i fonitro faint o dai sy’n cael eu codi ar safleoedd tir llwyd ar draws Cymru.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o safleoedd tirlenwi ar gyfer gwaredu gwastraff? (WAQ48798)

**Carwyn Jones:** Mae strategaeth wastraff genedlaethol Cymru, ‘Yn Gall gyda Gwastraff’, yn ceisio lleihau ein dibyniaeth draddodiadol ar dirlenwi drwy annog rheoli gwastraff mewn ffordd fwy cynaliadwy. Yn arbennig, mae’n annog lleihau gwastraff a rhagor o ailgylchu a chompostio gwastraff. Mae’r cynllun lwfans tirlenwi yn rhoi targedau blynyddol i’r awdurdodau lleol i leihau faint o wastraff dinesig bioddiraddawy sy’n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi er mwyn cyrraedd y rhwymedigaethau o dan gyfarwyddeb dirlenwi’r UE.

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i wella mynediad i’n traethau a’n harfordiroedd? (WAQ48799)

**Carwyn Jones*:*** Mae agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru, ‘Cymru: Gwlad Well’, yn cynnwys ymrwymiad i wella mynediad cyhoeddus i’r arfordir. Fel y cyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ym mis Mehefin eleni, mae ein rhaglen newydd i wella mynediad arfordirol yn anelu at wneud hyn drwy welliannau ymarferol i lwybrau arfordirol, yn cynnwys cylchdeithiau newydd ac adrannau sy’n addas i farchogion a beicwyr. Yn y tymor hwy, ein nod yw datblygu llwybr arfordirol o ansawdd dda ar hyd Cymru gyfan, yn cysylltu â llwybrau presennol fel llwybr arfordirol sir Benfro. Mae cyllid newydd ar gyfer y rhaglen hon wedi cael ei ddyrannu dros dro yng nghyllideb ddrafft y Cynulliad ar gyfer 2007-08.

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddosbarthu canllawiau cynllunio i awdurdodau lleol sy’n gysylltiedig â’r defnydd arfaethedig o adeiladau busnes? (WAQ48800)

**Carwyn Jones:** Mae’r canllawiau cynllunio a ddarperir i awdurdodau lleol ac eraill wedi’u cynnwys ym ‘Mholisi Cynllunio Cymru’ (2002) sy’n cael ei ddiweddaru’n achlysurol drwy ddatganiadau cynllunio interim gan y Gweinidog. Mae canllawiau ar ddatblygiadau busnes wedi’u cynnwys ym mhennod 7 o ‘Bolisi Cynllunio Cymru’. Yr ydym ar fin ymgymryd â gwerthusiad o’r broses o lunio polisi cynllunio a hyd nes y cyhoeddir casgliadau’r gwerthusiad hwn nid oes cynlluniau i newid y canllawiau ynglyn â datblygiadau busnes.

Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y’i diwygiwyd, Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd (Diwygio) 2005 a’r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir (Diwygio), yn sefydlu defnyddiau tir a ganiateir. Mae’r offerynnau hyn hefyd yn darparu fframwaith i’r awdurdodau cynllunio lleol ac eraill, i asesu cynigion newid defnydd lle newidir defnydd tir, yn cynnwys rhai defnyddiau busnes—caniateir newid rhai defnyddiau heb fod angen caniatâd cynllunio.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella mynediad i lwybrau arfordirol yng Nghymru? (WAQ48801)

**Carwyn Jones:** Mae agenda strategol Llywodraeth y Cynulliad, ‘Cymru: Gwlad Well’, yn cynnwys ymrwymiad i wella mynediad cyhoeddus i’r arfordir. Mae ein rhaglen newydd i wella mynediad arfordirol, a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ym mis Mehefin eleni, yn anelu at gyflawni hyn drwy wella llwybrau ar yr arfordir, yn cynnwys cylchdeithiau newydd ac adrannau sy’n addas i farchogion a beicwyr. Yn y tymor hwy, ein nod yw datblygu llwybr arfordirol o ansawdd dda ar hyd Cymru gyfan, yn cysylltu â llwybrau presennol fel llwybr arfordirol sir Benfro.

Mae cyllid ychwanegol ar gyfer y rhaglen arfordirol newydd hon wedi cael ei gynnwys dros dro yng nghyllideb ddrafft y Cynulliad ar gyfer 2007-08. Yn ogystal, mae fy swyddogion yn gweithio i sicrhau y dylai elfennau perthnasol o'r rhaglen fod yn gymwys i gael cyllid dan raglenni cydgyfeirio newydd yr UE a than y cynllun datblygu gwledig newydd.

**Michael German:** Pa ystyriaeth mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i gynnwys cynnyrch masnach deg yn ryseitiau Gwir Flas Cymru sydd ar gael ar wefan Gwir Flas Cymru/Awdurdod Datblygu Cymru/Gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru http://www.wda.co.uk/index.cfm/food_wales_2/recipe/wl3211, ac a wnaiff sicrhau mai dyma fydd y drefn o hyn ymlaen? (WAQ48818)

**Carwyn Jones:** Mae'r swyddogion i fod i gwrdd ar 12 Rhagfyr i drafod yr ystyriaethau yn ymwneud â chynnwys cynnyrch masnach deg yn y ryseitiau a roddir ar wefan www.walesthetruetaste.com.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei phortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47898)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mae'r wybodaeth a gyflenwir wedi cael ei chasglu ynghyd gan wasanaethau corfforaethol y Cynulliad o gofnodion y Cynulliad a datganiadau a ddarparwyd gan y cyn gyrff cyhoeddus a gâi eu noddi gan y Cynulliad.

Mae'r wybodaeth yn cynnwys contractau ymgynghoriaeth reoli dros £25,000 mewn gwerth. Fel y gofynnwyd, mae tabl ar wahân wedi cael ei ddarparu am bortffolio pob Gweinidog, yn cwmpasu'r cyfnod o 1999 tan y presennol, a rhoddir dyddiad dyfarnu pob contract. Nid yw contractau sy'n dal ar hanner y broses dendro wedi cael eu cynnwys.

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori Trefnydd y Cynulliad 1999 hyd 2006**

| Rhif y Contract | Adran | Teitl y Contract | Is-adran | Gwerth y Contract (heb gynn TAW) | Cwmni Llwyddiannus | Dyddiad Dyfarnu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon 1999 hyd 2006**

| Rhif y Contract | Adran | Teitl y Contract | Is-adran | Gwerth y Contract (heb gynn TAW) | Cwmni Llwyddiannus | Dyddiad Dyfarnu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1320 | Cadw | Asesu gweithrediad castell y Waun | Cadw | 37,600 | PBL Consulting Ltd | 24/05/2006 |
| 267/2001 | Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg | Ymgynghori ynglyn â gerddi botanegol | CSWLD | £50,000 | KPMG | 02/10/2002 |

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau 1999 hyd 2006**

| Rhif y Contract | Adran | Teitl y Contract | Is-adran | Gwerth y Contract (heb gynn TAW) | Cwmni Llwyddiannus | Dyddiad Dyfarnu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 023/2003 | AHA | Adolygiad Gyrfa Cymru | TSCP2 | £66,300 | GCL Management Consultancy | 10/10/2003 |
| 185/2002 | AHA | Gwerthuso 'Ymestyn Hawliau Pobl Ifanc yng Nghymru' | YPT | £69,464.25 | Interactive feedback | 21/02/2003 |
| 117/2002 | AHA | Gwerthuso gweithwyr sy'n dysgu | AHA-TSCP2 | £81,175 | Newidiem | 09/12/2002 |
| 091/2000 | AHA | Rhaglen arweinyddiaeth i benaethiaid | Arwein Ysgol-ion | £154,940 | Hay Management | 14/03/2000 |

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori Menter, Arloesi a Rhwydweithiau / Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth 1999 hyd 2006**

| Rhif y Contract | Adran | Teitl y Contract | Is-adran | Gwerth y Contract (heb gynn TAW) | Cwmni Llwyddiannus | Dyddiad Dyfarnu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 156/2005 | ADETh | Gwerthuso busnes a chynllun gweithredu | OCTO | 28,405 | Enviros | 01/03/2006 |
| 77/2005 | ADETh | Gwerthuso'r cronfeydd strwythurol | WEFO | 100,900 | Old Bell 3 | 01/02/2006 |
| "02/2005 | ADETh | Adolygu cynlluniau cymorth busnes | EDT | £49,800 | Strategem | 14/07/2005 |
| | WDA | Rheoli risg | WDA | 111,625 | Proteus Programme management | 01/03/2005 |
| | WDA | Gwerthuso rhaglen LEADER + | WDA | £49,100.00 | CRG, Old Bell, Dateb a Fitz Patrick Associates | 01/08/2005 |
| | WDA | Ymchwilio i botensial economaidd saethu gêm yng Nghymru | WDA | 46,864 | Athrofa Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Y Bae | 01/09/2005 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | WDA | Gwerthuso rhaglenni gwledig yng Nghymru – ar y cyd â LlCC | WDA | £84,776.00 | CRG Consulting | 01/10/2005 |
| | WDA | Rheoli risg—newid rhaglenni | WDA | £58,750 | Proteus Programme management | 01/03/2006 |
| 131/2004 | ADETh | Diweddariadau gwerthuso canol tymor o'r rhaglenni Amcan 1,2,3 yng Nghymru a chynllun cymunedol Interreg IIIA yng Nghymru/Iwerddon | PHPD (i) | £98,850.00 | Old Bell 3 | 26/01/2005 |
| 131/2004 | ADETh | | (ii) | £40,237.50 | EROS | 26/01/2005 |
| 131/2004 | ADETh | | (iii) | £97,025.00 | Old Bell 3 | 26/01/2005 |
| 131/2004 | ADETh | | (iv) | £44,000.00 | Old Bell 3 | 26/01/2005 |
| | WDA | Adolygiad Cyllid Cymru | WDA | £59,855 | Pricewaterhouse Coopers | 01/02/2004 |
| | WDA | Astudiaeth dichonoldeb—Canolfan y Canmlwyddiant (y Sioe Frenhinol) | WDA | £29,081.00 | Rural Consultancy Com, Prifysgol Harper Adams, Stubbs Rich Architects | 01/12/2004 |
| 253/2003 | ADETh | Contract yn ôl y gofyn am adolygiadau Gateway | BIMD | £26,320 | Chandler KBS | 15/04/2004 |
| | WDA | Gwerthusiad o'r fenter trefi marchnad | WDA | £120,140 | Sefydliad Tavistock | 01/01/2003 |
| | WDA | Adolygiad hunaniaeth o'r brand corfforaethol | WDA | £264,486 | Glazer Ltd | 01/06/2003 |
| | WDA | Mapio diwydiant coedwigaeth Cymru—ar y cyd â'r Comisiwn Coedwigaeth | WDA | 53,912 | Jaako Poyry consulting | 01/09/2003 |
| | WDA | Prosiect Technium CAST | WDA | 40,000 | Waypost Ltd | 01/12/2003 |
| 123/2002 | ADETh | Rhaglen ymwybyddiaeth a hyrwyddo Cymru ar Lein | Cymru ar lein | £1,179,678.00 | The Glasgow Group | 06/08/2003 |
| 150/2002 | ADETh | Gwerthusiad canol tymor | WEFO | £279,610 | EKOS | 06/02/2003 |
| 206/2002 | ADETh | Ymgynghorydd i ymgymryd ag astudiaeth am weithgareddau terfynell cludo nwyddau yn y De | WEFO | £40,795 | Steer Davies Gleave | 06/05/2003 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | WDA | Cynllun gweithredu o ran adfywio economaidd yng nghefn gwlad—cyllidwyd ar y cyd â’r awdurdodau lleol | WDA | 25,000 | Prifysgol Cymru Aberystwyth | 01/12/2002 |
| 345/2001 | ADETh | Gwerthusiad canol tymor o raglen Amcan 1 | WEFO | £700,000.00 | CRG & CSES (Rhannwyd yn becynnau) | 19/09/2002 |
| 022/2001 | ADETh | Gwerthusiad o XL Plus | ECAD 4 | £42,412.50 | York Consulting | 05/04/2001 |
| | WDA | Datblygu strategaeth ynni i’r WDA | WDA | £39,000 | West Coast Energy | 01/01/2001 |
| | WDA | Ymchwilio i adfywio cymunedol | WDA | 29,457 | Prifysgol Morgannwg | 01/07/2001 |
| | WDA | Parhad Busnes | WDA | £41,125 | Adams Associates | 01/10/2001 |
| | WDA | Adolygu polisi’r WDA ar ddatblygu cynaliadwy | WDA | £221,000 | Ove Arup and Partners | 01/11/2001 |
| 154/2000 | ADETh | Rhag-werthusiadau LEADER III & Urban | WEFO, CPSDS | £35,097.25 | Ove Arup | 15/08/2000 |
| 070/99 | ADETh | Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru—rheolaeth rhaglen 1999 i 2002 | ITD | £72,409 | Canolfan Ansawdd Cymru | 28/02/2000 |
| | ADETh | Gwerthusiad o’r fenter trefi marchnad | WDA | £39,600 | Sefydliad Tavistock | 01/05/2001 |
| | ADETh | Gwerthusiad LEADER II, comisiwn ar y cyd â Rhwydwaith LEADER, a WEPE | WDA | £30,000 | Newidiem | 01/02/1999 |
| | WDA | Strategaeth System Wybodaeth | WDA | £69,332 | Deloitte & Touche | 01/02/2000 |
| | WDA | Adolygiadau economaidd/ cyngor | WDA | £79,900 | P&C Economic Consultants | 01/06/2000 |
| | WDA | E-reolaeth rhaglenni’r WDA | WDA | £270,234 | Deloitte & Touche | 01/08/2000 |

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad 1999 hyd 2006**

| Rhif y Contract | Adran | Teitl y Contract | Is-adran | Gwerth y Contract (heb gynn TAW) | Cwmni Llwyddiannus | Dyddiad Dyfarnu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 92/2005 | EPC | Gwerthusiad o ymchwil cynllunio Cymru | | 39,500 | Ecotec Ltd | 14/11/2005 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 063/2004 | EPC | Model RAB i Gymru | SD ETE52 | £48,888.00 | Charles River Associates | 30/07/2004 |
| 087/2004 | EPC | Cynghorydd sicrhau ansawdd allanol—rhaglen ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin | EPC - CAPM | £35,000.00 | TQMI | 12/10/2004 |
| 139/2003 | EPC | Adolygiad o fonitro arfordirol yng Nghymru | ENVP2 | £43,858 | Posford Haskoning | 01/04/2004 |
| 126/2003 | EPC | Ymgynghoriaeth cynllun gofodol drafft Cymru | Is-adran Cefn Gwlad | £67,000 | Kevin Murray Associates | 29/09/2003 |
| 196/2002 | ACChG | Ymgynghorwyr allanol: adolygiad parciau | TPE | £50,000 | Land Use Consultancy | 04/03/2003 |
| 231/2002 | ACChG | Cynlluniau gwastraff rhanbarthol, astudiaeth mewnforio ac allforio gwastraff | Cynllun-io (4) | £30,000 | SLR Consulting | 24/12/2002 |
| 250/2002 | ACChG | Anheddau hanfodol yng nghefn gwlad agored | Cynllun-io (4) | £60,000 | Land Use Consultancy | 29/08/2003 |
| 291/2002 | ACChG | Effeithiolrwydd y Cynulliad yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy | SPU | £29,150 | CAG Consultants | 22/05/2003 |
| 137/2001 | ACChG | Ymgynghoriaeth i astudio opsiynau polisi ar gyfer cymunedau gwledig â chydbwysedd oedran | Polisi Gwledig | £76,758.00 | Newidiem | 18/03/2002 |
| 004/2000 | ACChG | Astudiaeth i arfarnu newydd-ddyfodiaid i fyd ffermio | APD4 | £36,840 | ADA Consulting | 23/03/2000 |
| 036/2000 | ACChG | Penodiad ymgynghorol tymor byr | CAP | £36,000 | Mr Goodwin | 20/05/1999 |
| 132/2000 | ACChG | Yn ôl y galw—Sgiliau Ymgynghorol TG (SCAT) | CAPM | £288,525 | W.S. Atkins | 07/07/2000 |
| 129/2000 | ACChG | Astudiaeth o ynni adnewyddadwy yng Nghymru | CID | £69,995 | Sustainable Energy Ltd | 07/07/2000 |
| 178/2000 | ACChG | Tomenni rwbel chwareli'r Gogledd—ffynhonnell gynaliadwy o Agregau Eilaidd | Cynllun-io | £36,730 | Ove Arup & Partners | 13/11/2000 |
| 230/2000 | ACChG | Cyfansoddiad gwastraff dinesig yng Nghymru | TPE | £99,790 | AEA Technology | 22/11/2000 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 299/2000 | ACChG | Gwerthusiad o gymorth gweithredol/amrywiadau cyllid | EP3 | £75,500 | Price Waterhouse Coopers | 27/02/2000 |
| 100/99 | ACChG | Astudiaeth gwmpasu am strategaeth wastraff i Gymru | TPE | £56,129.75 | Ecotech | 03/11/1999 |
| 092/99 | ACChG | Cymorth ymgynghorol i gynnal arolwg dwyieithog o gwsmeriaid | WOAD1 | £59,900 | NOP research | 16/02/2000 |
| 086/99 | ACChG | Cynllun datblygu gwledig | URD | £26,850 | Roger Tym & Partners | 08/10/1999 |
| 056/99 | ACChG | Ymgynghoriaeth—model archwilio busnes | WOAD | £45,000 | Ethos Management | 03/08/1999 |
| 028/99 | ACChG | Astudiaeth gwmpasu o'r newid yn yr hinsawdd: yr effaith yng Nghymru | Is-adran Amgyl-cheddol | £45,000 | Ysgol Amaethyddiaeth a Gwyddorau Coedwigaeth | 06/07/1999 |

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori Cyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus 1999 hyd 2006**

| **Rhif y Contract** | **Adran** | **Teitl y Contract** | **Is-adran** | **Gwerth y Contract (heb gynn TAW)** | **Cwmni Llwyddiannus** | **Dyddiad Dyfarnu** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 210/2005 | Llyw Leol | Astudiaeth cysylltiadau | | 53,550 | CRG Ltd | 08/04/2005 |
| 81/2005 | Llyw Leol | Diwygio gwasanaethau lleol | | 45,000 | Prifysgol Caerdydd | 29/09/2005 |
| 287/2002 | Cyllid | Adolygiad pum mlynedd ACCAC | FP2 | £50,800 | Open Direction | 24/04/2003 |
| 052/2000 | Cyllid | Adolygiad caffael Cymru | Fa4 | £30,000 | Martin Darcy | Mar-2000 |
| 107/99 | Cyllid | Gwasanaethau ymgynghorol | FA | £50,000 | Price Waterhouse Coopers | 22/12/1999 |

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 1999 hyd 2006**

| **Rhif y Contract** | **Adran** | **Teitl y Contract** | **Is-adran** | **Gwerth y Contract (heb gynn TAW)** | **Cwmni Llwyddiannus** | **Dyddiad Dyfarnu** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Iechyd | Adolygiad o Awdurdod Iechyd Gwent | RD | £320,000 | Price Waterhouse Coopers | Jun-06 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Iechyd | Cynllun capasiti i wasanaethau anhwylderau personol | HCW | £48,000 | Finnamore Management Consultants | Mar-06 |
| | Iechyd | Asesiad effaith canolfan niwrowyddorau'r De | HCW | £72,000 | Finnamore Management Consultants | Mar-06 |
| | Iechyd | Adolygu tariffau trawsffiniol | RD | £54,000 | Badenock & Clark Geraldine Rolf | Aug-05 |
| | Iechyd | Rhestrau aros enghreifftiol | RD | £89,925 | Rawlinson, Kellt & Whittlestone Ltd | Jun-05 |
| | Iechyd | System adrodd am adolygiadau | RD | £94,580 | Badenock & Clark Geraldine Rolf | Feb-05 |
| | Iechyd | Cronfa ddata cyllidebu rhaglenni | RD | £42,505 | PA Consulting | Jan-05 |
| 066/2004 | Iechyd | Manyleb ar gyfer cymorth gwerthuso | HP3 | £60,512.00 | People and Work Unit | 11/11/2004 |
| | Iechyd | Gwerthusiad o'r cydweithredu wrth roi model iechyd cymdeithasol ar waith | SU | £49,900 | Yr Athro Vivienne Walters | 01/09/2004 |
| | Iechyd | Arwain datblygiad cronfa ddata o wybodaeth cyllidebu rhaglenni | RD | £25,000 | Graham McInnes | 22/11/2004 |
| | Iechyd | Adolygiad allanol o dair canolfan gwasanaethau a rennir | RD | £48,750 | Atos KPMG Consulting | 01/08/2004 |
| | Iechyd | Gwerthusiad o'r cynllun grant hybu iechyd—bwyd a ffitrwydd yng Nghymru | HPD | £38,200 | Sefydliad Bwyd, Byw'n Heini a Maeth, Prifysgol Bangor | 13/02/2004 |
| | Iechyd | Model aeddfedrwydd cyllidol i ymddiriedolaethau GIG | RD | £48,000 | Atos KPMG Consulting | 01/12/2003 |
| | Iechyd | Systemau rheoli mewnol mewn canolfannau gwasanaethau busnes | RD | £99,700 | Atos KPMG Consulting | 01/10/2003 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Iechyd | Adolygu'r meysydd risg y rhoddir blaenoriaeth iddynt ym maes iechyd meddwl | HSPD | £95,000 | Prifysgol Cymru, Bangor | 29/07/2004 |
| 112/99 | Iechyd | Smokebusters—rheolaeth y rhaglen a'r drefn gyflenwi | HPD | £47,655 | Quadrant | 23/12/1999 |
| 090/99 | Iechyd | Datblygu system gwybodaeth reoli weithredol | SCP | £61,600 | Nuffield Institute for Health | 01/11/1999 |
| 45/2003 | Iechyd | Ymgynghorwyr Q&A | ASGC | £80,000 | QA Plus Ltd | 21/11/2003 |
| 75/2003 | Iechyd | Asesiad o'r fframwaith plant a phobl ifanc | CFD | £50,000 | Children in Wales | 14/10/2003 |
| 224/2002 | Iechyd | Adolygiad o bwrpas gwasanaethau maethu a'r ffordd y'u datblygir ac y'u rheolir | CFD4 | £36,000 | Roger Clough | 28/02/2003 |
| 225/2002 | Iechyd | Adolygiad o bwrpas gwasanaethau gofal preswyl a'u ffurf i'r dyfodol | CFD4 | £39,630 | Roger Clough | 28/02/2003 |
| 226/2001 | Iechyd | Ymgynghorydd gwybodaeth gofal plant | CFD | £49,500.00 | Hedra | 12/11/2001 |

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 1999 hyd 2006**

| Rhif y Contract | Adran | Teitl y Contract | Is-adran | Gwerth y Contract (heb gynn TAW) | Cwmni Llwyddiannus | Dyddiad Dyfarnu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| "06/2005 | CC&A | Fframwaith camddefnyddio sylweddau | CSU | £49,650 | WHISC | 14/06/2005 |
| 001/2004 | CC&A | Ymgynghorydd annibynnol | Tai | £31,500 | Anne Delaney | 16/06/2004 |
| 127/2002 | CC&A | Cefnogi Pobl yng Nghymru | Tai | £50,000.00 | DT2 PIEDCU | 13/12/2002 |
| | CC&A | Tai a gofal cartref a chymorth yn gysylltiedig ag oed | Tai | £26,850.00 | Contact Consulting | 16/04/2002 |
| 227/2000 | CC&A | Prosiect i ddatblygu methodoleg adrodd o dan y Ddeddf arbed ynni cartref | Tai | £30,575.00 | National Energy Services | 16/11/2000 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 109/99 | CC&A | Astudiaeth tir llwyd | Tai | £29,235.00 | Hyder | 23/11/1999 |
| | CC&A | Adolygiad o gamddefnyddio sylweddau | CSU | £45,365 | Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru —Prifysgol Morgannwg | 01/12/2003 |
| 229/2003 | CC&A | Dadansoddiad o anghenion hyfforddi | CSU | £59,000 | CAIS Cyf | 23/07/2004 |

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y niferoedd a dderbyniodd y budd-dal treth gyngor ymhob blwyddyn er 1999, a chymharu hynny â'r niferoedd sy'n gymwys? (WAQ48228)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.***

**Sue Essex:** Nid yw'r cyfrifoldeb am fudd-dal treth gyngor wedi cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n dal i fod yn gyfrifol amdano. Nid ydym felly'n casglu data am y nifer sy'n cael y budd-dal na'r nifer o bobl a allai fod yn gymwys yng Nghymru. Mae yna, fodd bynnag, beth data ar gael ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar http://www.dwp.gov.uk/asd/hbctb.asp. Mae'r tabl isod yn rhoi'r nifer o hawlwyr yng Nghymru er 2002, y dyddiad cynharaf y mae data ar gael ar ei gyfer.

| **Chwarter yn gorffen** | **Nifer o Hawlwyr Budd-dal Treth Gyngor** |
|---|---|
| Chwe 02 | 264,000 |
| Chwe 03 | 256,000 |
| Chwe 04 | 178,100 |
| Chwe 05 | 272,000 |
| Chwe 06 | 278,500 |

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n darparu amcangyfrifon o'r nifer sy'n cael budd-daliadau ar draws Prydain Fawr gyfan, ac fe'u cyflwynir fel ystodau—disgwylir i'r nifer gwirioneddol sy'n cael budd-daliadau ddod o fewn yr ystodau hyn. O ran y budd-dal treth gyngor, yn ystod yr un cyfnod amcangyfrifir bod rhwng 63 y cant a 72 y cant o'r rhai sy'n gymwys yn hawlio mewn gwirionedd.

Yr wyf wedi sefydlu gweithgor budd-dal treth gyngor i edrych ar ffyrdd posibl o gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y budd-dal hwn ar draws Cymru ac i nodi unrhyw awgrymiadau am newidiadau deddfwriaethol y gellid eu cyflwyno i'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r grwp yn gweithredu fel fforwm i ledaenu'r arferion gorau ym maes gweinyddu'r budd-dal treth gyngor a manteisio arno. Mae hefyd yn ceisio gweithredu fel cyswllt rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau.

Ar gyfer 2006-07 yr ydym wedi rhwymo £1.5 miliwn ychwanegol mewn grantiau i'r awdurdodau lleol i'w helpu gyda'u hymdrechion i gynyddu'r nifer sy'n cael budd-dal treth gyngor yng Nghymru. Dyrannwyd y grantiau ar sail yr asesiad safonol o wariant ac mae'r awdurdodau'n rhydd i benderfynu sut y dylai'r arian grant gael ei wario.

Mae amryw o weithgareddau ar waith, yn cynnwys:

> prynu meddalwedd i wneud y broses hawlio'n symlach ac yn gyflymach, ac i ganiatáu i ffurflenni gael eu llenwi gan drydydd parti fel nad oes gofyn i'r hawlydd ond eu gwirio a'u llofnodi;
>
> gweithio gyda'r sector gwirfoddol i dargedu'r rhai sy'n fwyaf eu hangen; a
>
> chyflogi staff pwrpasol ar gontractau tymor penodol i ddelio'n uniongyrchol â hawlwyr posibl.

Mae'n rhy gynnar i farnu pa effaith y mae'r gweithgareddau ychwanegol hyn yn ei chael o ran cynyddu'r nifer sy'n cael y budd-dal hwn.

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn unrhyw sylwadau ynghylch cyfyngiadau parcio yn Heol y Frenhines, Castell-nedd, ac os felly, a wnaiff roi'r manylion? (WAQ48741)

**Sue Essex:** Nid oes unrhyw sylwadau wedi dod i law.

**Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw ei Adran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â Chwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw'r Adran yn graddio neu ddosbarthu Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ448746) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48749.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Gweinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48762) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48761.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau cyllidebol cyfredol? (WAQ48791)

**Sue Essex:** Nodwyd ein blaenoriaethau cyllido yn y gyllideb derfynol. Bydd yr £824 miliwn ychwanegol y flwyddyn nesaf yn ein galluogi i sicrhau bod ein 10 ymrwymiad pennaf yn "Cymru: Gwlad Well" yn cael eu gweithredu'n ariannol. Bydd yr arian yn ateb y pwysau o ran cyflogau a phrisiau, yn darparu ar gyfer rhagor o fuddsoddi cyfalaf, yn ateb pryderon pwyllgorau'r Cynulliad ac yn adlewyrchu'r trafodaethau am y gyllideb gyda'r gwrthbleidiau'n ddiweddar.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw sylwadau a dderbyniodd yn ddiweddar ynghylch y gyllideb gyffredinol a ddyrennir i'r portffolio Addysg a Dysgu Gydol Oes? (WAQ48792)

**Sue Essex:** Yn ystod cylch cynllunio'r gyllideb yr wyf wedi ystyried amryw o safbwyntiau am y mater hwn, yn cynnwys y farn a fynegwyd gan y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

**Eleanor Burnham:** Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i unrhyw dargedau sydd ar ddod a gynigiwyd gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon wrth ddyrannu'r gyllideb i'w bortffolio? (WAQ48794)

**Sue Essex:** Ystyriais yr ymrwymiadau a nodwyd yn 'Cymru: Gwlad Well', pwysau o ran cyflogau a phrisiau, a blaenoriaethau'r pwyllgor pwnc.

**William Graham:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ar gyfer cynyddu cyllideb y portffolio Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i gefnogi addysg uwch yng Nghymru? (WAQ48795)

**Sue Essex:** Yn ystod cylch cynllunio'r gyllideb yr wyf wedi ystyried amryw o safbwyntiau am y mater hwn, yn cynnwys y farn a fynegwyd gan y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

**Jonathan Morgan:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn unrhyw sylwadau yn galw am arian ychwanegol ar gyfer y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn diwallu'r blaenoriaethau cyllido sy'n gysylltiedig â gwasanaeth ambiwlans Cymru? (WAQ48796)

**Sue Essex:** Yr wyf wedi gwrando ar amryw o safbwyntiau am y mater hwn, yn cynnwys y farn a fynegwyd gan y pwyllgor pwnc. Yr oedd y gwariant i'r dyfodol ar ddarparu ambiwlansys wedi ei gynnwys yn y gyllideb ddrafft ac yr wyf yn hyderus bod y gyllideb derfynol yn cynnwys darpariaeth ddigonol i wireddu'r moderneiddio trylwyr a thymor hir y mae ei angen ar y gwasanaeth.

**Jonathan Morgan:** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ynghylch dyrannu arian ychwanegol i gynorthwyo'r rhai sydd wedi dioddef yn sgil methiant Farepak? (WAQ48797)

**Sue Essex:** Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn gweithio gyda Chanolfan Gydweithredol Cymru a'r undebau credyd i sefydlu mesurau i helpu'r rheini yng Nghymru sydd wedi dioddef yn sgil methiant Farepak.

**David Lloyd:** Yng nghyswllt y byrddau gwasanaethau lleol newydd arfaethedig, a wnaiff y Gweinidog esbonio'r amserlen ar gyfer eu sefydlu, a'r prosesau sy'n ofynnol ar gyfer eu sefydlu? (WAQ48808)

**David Lloyd:** Yng nghyswllt y byrddau gwasanaethau lleol newydd arfaethedig, a wnaiff y Gweinidog nodi pa fudiadau gwirfoddol yr ymgynghorwyd â hwy i drafod rolau a chyfrifoldebau'r byrddau hyn? (WAQ48809)

**David Lloyd:** Yng nghyswllt y byrddau gwasanaethau lleol newydd arfaethedig, a wnaiff y Gweinidog nodi'r dyletswyddau a fydd yn cael eu hysgwyddo ganddynt, a faint o arian a fydd yn cael ei roi iddynt ar gyfer cyflawni'u cyfrifoldebau? (WAQ48810)

**Sue Essex:** Mae'r amserlen ar gyfer sefydlu'r byrddau gwasanaethau lleol a'r cytundebau wedi'i nodi ar dudalen 24 o 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni ar Draws Ffiniau'. Mae'r broses wedi ei nodi ym mhennod 3 a bydd yn golygu adeiladu ar y partneriaethau strategaethau cymunedol presennol y mae'r sector gwirfoddol eisoes yn ymwneud llawer iawn â hwy. Hefyd, yr ydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddatblygu ein syniadau ar gyfer y papur ymgynghori sydd i gael ei gyhoeddi ar ôl y Nadolig. Bydd y papur ymgynghori hwn yn gofyn am farn am rôl, cwmpas, dyletswyddau, trefniadau llywodraethu a threfniadau eraill y byrddau gwasanaethau lleol, yn ogystal â gofyn am ardaloedd i wirfoddoli am y prosiectau datblygu i symud cytundebau gwasanaethau lleol ymlaen.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a

gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47899) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ47898.

**Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw ei Adran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â Chwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw'r Adran yn graddio neu ddosbarthu Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ448747) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48749.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Gweinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48763) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48761.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bractisiau orthodontig sydd wedi defnyddio eu dyraniad blynyddol o unedau gweithgarwch orthodontig ac sydd yn dal i fod â'r capasiti i drin cleifion, ond bod dim cyllid ganddynt i wneud hynny? (WAQ48654)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffordd y bydd y system apelio'n delio â phractisiau orthodontig y pennwyd swmp eu contract ar lefelau hanesyddol yn hytrach nag adlewyrchu eu gwir gapasiti pan gyflwynwyd y contract newydd yn Ebrill 2006? (WAQ48655)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Cafodd y cyllid ar gyfer contractau orthodontig, fel y cyllid ar gyfer contractau deintyddol eraill, ei bennu ar gyfer 2006-07 fesul ardal bwrdd iechyd lleol, ac fe'i seiliwyd ar y gwasanaeth a ddarparwyd yn ystod cyfnod cyfeirio'r contract rhwng mis Hydref 2004 a mis Medi 2005.

Gan fod y BILlau bellach yn rheoli eu cyllid eu hunain, mae comisiynu lleol yn un o'r prif fanteision i'r GIG o dan y trefniadau newydd. Mae'n rhoi dylanwad cynyddol i'r BILlau o ran sut mae gwasanaethau deintyddol y GIG yn eu hardal yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion lleol. Mater i'r BILl unigol yw'r lefel o wasanaethau a ddarperir.

Lle bo practis yn teimlo nad yw gweithgarwch y cyfnod cyfeirio a'r contract a ddyfarnwyd yn adlewyrchu ei gapasiti ar hyn o bryd neu ei gapasiti i'r dyfodol yn gywir, dylai'r practis dan sylw godi'r mater gyda'r BILl sy'n comisiynu. Mater i'r BILl a'r ymarferydd unigol yw unrhyw addasiadau i gontractau o ran capasiti.

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa gefnogaeth ariannol y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i Brosiect Cwnsela Seren? (WAQ48657)

*Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Mae'r prosiect neilltuol hwn wedi cael rhywfaint o gymorth ariannol gan Lywodraeth y Cynulliad yn y blynyddoedd a fu ar gyfer prosiectau penodol, a thrwy'r cynllun grantiau iechyd meddwl lleol a weinyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae fy ymateb i'ch cwestiwn blaenorol ar y mater

hwn, WAQ48661, yn rhoi gwybodaeth am sut y caiff sefydliadau o’r fath eu cyllido yng Nghymru. Er enghraifft, gwneir hynny drwy wasanaethau cwnsela sy’n cael eu darparu gan feddygfeydd meddygon teulu ar draws Cymru. Mae’r fframwaith gwasanaeth a chyllid ar gyfer 2006-07 yn cynnwys targed y dylai pob practis meddyg teulu allu cyrchu at wasanaethau seicolegol un ai yn y brif ganolfan ofal neu eu bod ar gael i’r ganolfan honno.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido triniaeth orthodontig ar gyfer cleifion sydd dan 18 oed pan gânt eu derbyn ar restrau aros ond a fydd yn cael eu cau allan o’r GIG oni ellir eu hasesu tan ar ôl iddynt fod yn 18? (WAQ48662)

**Brian Gibbons:** Mae’r rheoliadau i gynnal y contract newydd yn caniatáu i ymarferydd ddarparu gwasanaethau orthodontig i unrhyw un y nodir yn glinigol fod angen triniaeth arno i sicrhau iechyd y geg, pa un a yw o dan 18 oed ai peidio, cyhyd â bod y cytundeb neu gontract yn cynnwys darparu gwasanaethau o’r fath. Yr unig wahaniaeth yw y dylai’r cytundeb neu’r contract bennu o dan ba amgylchiadau y mae gwasanaethau orthodontig i gael ei darparu i glaf sydd dros 18 oed.

Erbyn hyn mae gan fyrddau iechyd lleol eu cyllidebau eu hunain a’r cyfrifoldeb i gomisiynu gwasanaethau deintyddol GIG i ddiwallu’r angen lleol a’r agenda iechyd geneuol ehangach. Dylai BILlau ystyried trafod comisiynu gwasanaethau orthodontig gyda BILlau lleol cyfagos, gan edrych ar y nifer sydd ar y rhestr aros a hyd y cyfnod aros am a) asesiad a b) triniaeth—a gwneud hynny’n unol â’r mynegai angen am driniaeth orthodontig a hefyd gan ddadansoddi’r ffynonellau cyfeirio yn ôl ardal BILl.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint mae hyfforddi ffisiotherapyddion yn ei gostio i’r GIG? (WAQ48683)

**Brian Gibbons:** Ddiwedd mis Hydref 2006 yr oedd 323 o ffisiotherapyddion yn cael eu hyfforddi yng Nghymru. O ystyried bod y gost ar gyfartaledd o hyfforddi un ffisiotherapydd am flwyddyn yn £7,550, rhagwelir y bydd y gost o hyfforddi ffisiotherapyddion yng Nghymru yn 2006-07 yn £2.44 miliwn. Mae hyn yn cynnwys costau'r contractau â phrifysgolion, ffioedd cyrsiau a chostau bwrsariaethau myfyrwyr.

**Nick Bourne:** A yw’r Gweinidog yn cynnig cwrdd â chynrychiolwyr CHANT Cymru ynghylch gwasanaethau ysbytai cymunedol ac, os felly, pryd, ac, os nad, pam? (WAQ48726)

**Brian Gibbons:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i gwrdd â chynrychiolwyr CHANT Cymru gan nad oes cais wedi dod i law yn gofyn am gyfarfod ffurfiol o’r fath. Daeth cais hwyr iawn i law yn gofyn imi gwrdd â grwpiau oedd yn lobïo’r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2006. Fel yr eglurais i’r Cyfarfod Llawn y diwrnod hwnnw, y bore hwnnw yr oedd gennyf ymrwymiadau yn y dyddiadur a drefnwyd ymhell ymlaen llaw.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi’r apwyntiadau a oedd ganddo yn ei ddyddiadur ar gyfer 22 Tachwedd 2006? (WAQ48727)

**Brian Gibbons:** Dangosir y rhain yn y tabl isod.

| **Amser** | **Ymrwymiad** | **Lleoliad** |
|---|---|---|
| 10.00 - 11.00 | Cyngor Gwirfoddol Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Rhanbarthol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Neuadd Middleton, Sir Gaerfyrddin |

| | | |
|---|---|---|
| 12.30 - 13.00 | Lansio nod ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle i rai sy’n gadael gofal sydd mewn addysg uwch | Canolfan Mileniwm Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd |
| 14.00 - 17.30 | Cyfarfod Llawn | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| 14.45 - 15.15 | Cyfarfod â’r Gweinidog Cyllid | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| 19.00 - 22.30 | Cinio’r Cyngor Optegol Cyffredinol | Castell Caerdydd, Caerdydd |

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog roi amserlen pryd y bydd yn gwneud penderfyniad ynghylch dyfodol Ysbyty Fairwood a Ward Un yn Ysbyty Hill House? (WAQ48739)

**Brian Gibbons:** Ar hyn o bryd, nid wyf yn ymwneud â hynny. Mae’r broses a allai beri imi orfod ystyried y mater wedi cael ei hamlinellu isod:

Mae cylchlythyr iechyd Cymru WHC(2004)084, ‘Shaping Services Locally’, yn nodi o dan ba drefniadau y mae cynghorau iechyd cymuned yn ymwneud â’r broses o ystyried newidiadau i wasanaethau iechyd lleol. Pe bai CIC yn gwrthwynebu cynigion y mae’r GIG yn lleol wedi ymgynghori yn eu cylch, dilynir yr amserlen ganlynol:

> rhaid i’r CIC gadarnhau ei fod yn bwriadu cytuno â neu wrthwynebu’r cynigion o fewn chwe wythnos i ddiwedd y cyfnod ymgynghori;
>
> mae gofyn i’r corff GIG sy’n arwain y broses ymgynghori gyflwyno adroddiad o fewn wythnos i gais gan swyddfa ranbarthol y Cynulliad ar iddo wneud hynny;
>
> bydd y swyddfa ranbarthol honno yn cynnull cyfarfod (gyda’r corff neu’r cyrff GIG perthnasol a’r CIC fel arfer) o fewn mis, gyda’r nod o ddatrys y sefyllfa yn lleol;
>
> lle nad oes modd datrys y sefyllfa’n lleol, bydd y swyddfa ranbarthol yn cyfeirio’r mater ataf fi o fewn wythnos i’r cyfarfod lleol;
>
> o fewn mis pellach, bydd y swyddfa ranbarthol yn rhoi cyngor ac argymhelliad imi;
>
> byddaf fi’n ceisio dod i benderfyniad o fewn pedair wythnos i’r holl wybodaeth berthnasol ddod i law.

Felly, dylai’r amserlen benderfynu gael ei chwblhau yn ei chyfanrwydd o fewn 20 wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad.

**Lisa Francis:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cwblhau unrhyw drafodaethau gyda Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd mewn perthynas â sefydlu uned ffisiotherapi yn Ysbyty Coffa Blaenau Ffestiniog? (WAQ48743)

**Brian Gibbons:** Mater i’r gymuned iechyd yn lleol yw hwn. Deallaf fod grwp lleol a sefydlwyd i weithio

gyda Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd ac Ymddiriedolaeth Iechyd Gogledd Orllewin Cymru ynglyn â darparu gwasanaethau iechyd a gofal yn ardal Blaenau Ffestiniog wedi cwrdd am y pedwerydd tro ddydd Llun 13 Tachwedd 2006.

Hysbyswyd y grwp gan y BILl fod gwasanaethau cymunedol newydd yn cael eu datblygu ym Mlaenau Ffestiniog a bod penodiadau'n cael eu gwneud i swyddi nyrsio, therapi a gwasanaethau cymdeithasol newydd. Mae syniadau'n cael eu datblygu hefyd i ddefnyddio arian newydd i ddatblygu gwasanaethau gofal lliniarol.

Bydd yr aelodau staff hyn yn rhan o dîm gofal canolraddol i ddarparu gofal cymunedol dwys i gleifion, gyda'r nod o helpu i ryddhau cleifion yn gynharach o'r ysbyty neu o atal yr angen i dderbyn cleifion. Bydd y tîm yn gweithio'n agos gyda nyrsys cymunedol a therapyddion a bydd wedi'i leol yn Ysbyty Blaenau Ffestiniog.

Deallaf y gwneir buddsoddiad cyfalaf o £70,000 i droi'r ward ddynion sydd wedi cau yn adran ffisiotherapi ac y bydd y gwasanaeth yn symud wedyn o safle Ffordd Tywyn i safle'r ysbyty. Bydd ffisiotherapi yn cael ei ddarparu bob dydd yn yr ysbyty a chaiff y gwasanaeth ei ddatblygu i ymateb i anghenion y cleifion, megis darparu gwasanaeth atal cwympo, gwasanaeth i gleifion sydd â chlefyd Parkinson ac ati. Bydd gwasanaeth cleifion allanol ar gael ddwywaith yr wythnos.

**Lisa Francis:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd neu Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru gynyddu nifer y ffisiotherapyddion yng Ngwynedd? (WAQ48744)

**Brian Gibbons:** Mater i'r gymuned iechyd yn lleol a'i phartneriaid yw datblygiadau gwasanaeth lleol. I helpu i wireddu carreg filltir 2009 yn 'Cynllun Oes' na fydd neb yn aros mwy na 26 wythnos o'r adeg y caiff ei gyfeirio gan feddyg teulu hyd nes y ceir triniaeth (yn cynnwys triniaethau diagnostig a therapi), mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o'r fframwaith gwasanaeth a chyllid ar gyfer 2006-07. Y targed i'r GIG yng Nghymru yw sicrhau amser aros hwyaf, o ran mynediad at wasanaethau diagnostig a therapi penodedig, o 36 wythnos erbyn 31 Mawrth 2007.

Er mwyn cyrraedd y targed hwn, mae cymuned iechyd gogledd-orllewin Cymru, sy'n cynnwys Ymddiriedolaeth Gogledd Orllewin Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Gwyned a Bwrdd Iechyd Lleol Conwy, yn datblygu cynlluniau cyflenwi lleol gyda'r nod o sicrhau y gwireddir y targed hwn a rhaid felly iddi ystyried a fydd mynediad digonol at ffisiotherapi i gyrraedd y targedau.

**Lisa Francis:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod unrhyw dargedau ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd o ran ffisiotherapi ar gyfer cleifion allanol? (WAQ48745)

**Brian Gibbons:** Mater i'r gymuned iechyd yn lleol a'i phartneriaid yw datblygiadau gwasanaeth lleol. I helpu i wireddu carreg filltir 2009 yn 'Cynllun Oes' na fydd neb yn aros mwy na 26 wythnos o'r adeg y caiff ei gyfeirio gan feddyg teulu hyd nes y ceir triniaeth (yn cynnwys triniaethau diagnostig a therapi), mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o'r fframwaith gwasanaeth a chyllid ar gyfer 2006-07. Y targed i'r GIG yng Nghymru yw sicrhau amser aros hwyaf, o ran mynediad at wasanaethau diagnostig a therapi penodedig, o 36 wythnos erbyn 31 Mawrth 2007.

**Ann Jones:** Pa ganran o boblogaeth Cymru y mae cynllun wrth gefn Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pandemig ffliw yn rhagweld fyddai (a) yn cael eu heintio a (b) yn marw yn ystod pandemig? (WAQ48755)

**Brian Gibbons:** At ddibenion cynllunio, mae cynllun wrth gefn y DU ar gyfer ffliw pandemig yn argymell mai'r senario sylfaenol ar sail pandemigau blaenorol yw cyfradd ymosod glinigol gronnus o 25 y cant a chyfradd marwolaethau ymhlith yr achosion o rhwng 0.37 y cant a 2.5 y cant o'r boblogaeth, dros un don neu

fwy. Mae hyn yn awgrymu, yng Nghymru, y bydd tua 1.5 miliwn (50 y cant o'r boblogaeth) yn cwrdd â'r firws ac, o'r rhain, fod 750,000 yn debygol o ddatblygu symptomau clinigol (25 o'r boblogaeth). Mae cynllun y DU yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n barhaus i adlewyrchu newidiadau yn y rhagdybiaethau cynllunio a datblygiadau o ran gwybodaeth. Bydd cynllun diwygiedig cyflawn ar gael yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Fe'ch cyfeiriaf hefyd at yr ateb a roddwyd i WAQ48261 ym mis Hydref, a'r tabl a ddarparwyd a ddangosai'r ystod bosibl o salwch a marwolaethau i ardaloedd pob bwrdd iechyd lleol. Mae swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Ystadegol wedi cadarnhau bod y ffigurau hynny yn dal i fod yn gyfredol ac na fydd ffigurau wedi'u diweddaru ar gael tan 2007.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Gweinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48762) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48749.

**Jonathan Morgan:** Pa asesiad a wnaed ganddo o gydweddoldeb systemau cyfrifiadurol GIG Cymru a Lloegr? (WAQ48764)

**Brian Gibbons:** 'Hysbysu Gofal Iechyd' yw'r rhaglen genedlaethol yng Nghymru i wella'r ffordd y cyflenwir gofal iechyd drwy ddarparu gwell mynediad at dechnoleg gwybodaeth a gwybodaeth. Mae'n un o'r gweithgareddau galluogi tyngedfennol sy'n gefn i 'Cynllun Oes', y strategaeth genedlaethol ar gyflenwi gofal iechyd yng Nghymru dros y 10 mlynedd nesaf.

Yng Nghymru, yr ydym wedi mabwysiadu dulliau gwahanol i'r rhai sydd ar waith yn Lloegr o ddatblygu cymorth technoleg gwybodaeth yn ein gwasanaethau iechyd, wedi'u seilio ar ein gofynion gweithredol ni ein hunain a'n hasesiad o'n blaenoriaethau. Fodd bynnag, yr ydym yn cydweithredu'n agos â Lloegr a'r Alban i sicrhau ffordd gyffredin o ymdrin â safonau technegol, drwy fforwm rheoli gwybodaeth a thechnoleg y DU. Bydd hyn yn sicrhau bod modd cyfnewid gwybodaeth rhwng y gwasanaethau iechyd yn gyflym, yn saff ac yn ddiogel, lle bo hynny'n briodol.

**Ann Jones:** Faint o swyddi nyrsio ychwanegol a grëwyd yn Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych er 1999? (WAQ48776)

**Ann Jones:** Faint o swyddi ychwanegol ar gyfer meddygon a grëwyd yn Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych er 1999? (WAQ48777)

**Brian Gibbons:** Nid oes gwybodaeth ar gael yn ganolog am y nifer o swyddi ychwanegol a grëwyd gan ymddiriedolaeth dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, mae'r tabl isod yn dangos y nifer o staff mewn swydd ym 1999 a 2005 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae gwybodaeth ar gael amdani).

**Staff mewn swydd ar 30 Medi – Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych (a)**

| | 1999 | 2005 | Newid |
|---|---|---|---|
| Nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd cymwysedig | 1,265 | 1,518 | + 253 |
| Staff ysbyty meddygol | 207 | 288 | + 81 |

(a) Cyfwerth ag amser llawn

**Ann Jones:** Faint o gynlluniau sy’n gweithredu ar hyn o bryd i wella iechyd pobl leol yn Nyffryn Clwyd, a pha faterion iechyd y mae’r cynlluniau hyn yn rhoi sylw iddynt? (WAQ48779)

**Brian Gibbons:** Ar 31 Hydref 2006, cafodd Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych ddyraniad o £147,566,000 i gyllido gwasanaethau iechyd i boblogaeth Sir Ddinbych.

Mae’r cynlluniau cyllid cyfalaf sydd ar waith yn Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych yn cynnwys £4.470 miliwn a ddyrannwyd yn 2006-07 i gynlluniau dewisol, cynlluniau risg fawr a chynlluniau ynni. O ran Mynediad 2009, mae cyllid refeniw wedi cael ei ddyrannu i’r ymddiriedolaeth, £0.334 miliwn nad yw’n gyllid rheolaidd a £4.078 miliwn ar ffurf cyllid rheolaidd. Yn ychwanegol, mae cyllid cyfalaf o £3.318 miliwn wedi cael ei ddarparu ar gyfer offer theatr, offer wroleg ac offer phelydr X cyffredinol, sgopau ac uwchraddio cyfleusterau orthopedig. Mae cyllid cyfalaf o £1.4 miliwn wedi cael ei ddarparu hefyd i greu dwy ganolfan datblygiad plant amlddisgyblaethol, ac mae un ohonynt yn Sir Ddinbych. Ysbyty Glan Clwyd oedd un o’r safleoedd cyntaf i gael system gweinyddu meddyginiaethau awtomataidd.

Mae 15 o gynlluniau eraill hefyd ar waith yn Nyffryn Clwyd ar hyn o bryd. Mae’r rhain yn cynnwys tri phrosiect o dan y gronfa anghydraddoldebau iechyd:

y rhaglen cymunedau iach;

gweithredu cymunedol ynglyn â chlefyd coronaidd y galon

Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn.

Mae tri phrosiect hyfforddiant tegwch ac eiriolaeth:

tlodi tanwydd ac anghydraddoldebau iechyd;

cynllunio gwaith effeithiol drwy bartneriaeth rhwng ymwelwyr iechyd, swyddogion digartrefedd a chynghorwyr cynnal tenantiaeth gyda phobl ddigartref mewn llety dros dro yng ngogledd Sir Ddinbych;

Canolfan Gymorth Gogledd Cymru ym maes Trais a Cham-drin Rhywiol—mae’r prosiect hwn yn gweithredu ar draws y Gogledd i gyd.

Ymysg y cynlluniau eraill mae:

cynlluniau hybu iechyd;

cynllun grantiau sector gwirfoddol Her Iechyd Cymru;

cynlluniau ysgolion iach;

cynlluniau rhoi’r gorau i ysmygu;

cwmnïau bwyd cydweithredol; a

grantiau bwyd a ffitrwydd.

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog Iechyd roi manylion am y nifer o fidiau a gyflwynwyd gan bob BILl i'r gronfa anghydraddoldebau iechyd ers dechrau'r gronfa? (WAQ48781)

**Brian Gibbons:** Sefydlwyd y gronfa anghydraddoldebau iechyd yn 2001, cyn sefydlu'r byrddau iechyd lleol—o ganlyniad ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau gan y cyrff hyn. Bryd hynny daeth 112 o geisiadau i law gan sefydliadau o bob rhan o Gymru fel yr oeddent yn bodoli ar y pryd, yn cynnwys awdurdodau iechyd, ymddiriedolaethau GIG, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol. Mae'r gronfa wedi cefnogi 67 o brosiectau o blith yr ymgeiswyr gwreiddiol, mae chwech wedi cael eu cwblhau ers hynny ac mae 61 ar y gweill o hyd. Rhoddais estyniad at y cyllid i'r prosiectau hyn ym mis Chwefror 2006, am 12 mis y tu hwnt i'w dyddiad gorffen arfaethedig, a bydd y mwyafrif yn awr yn para tan 31 Mawrth 2008. Cyhoeddwyd adroddiad—'The Inequalities in Health Fund—making a difference' ym mis Chwefror 2006 ac mae'n tanlinellu'r cynnydd a'r hyn a gyflawnwyd gan bob prosiect hyd yma.

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog Iechyd ddarparu manylion am y dyraniadau o'r gronfa anghydraddoldebau iechyd i bob awdurdod lleol neu BILl ers dechrau'r gronfa? (WAQ48782)

**Brian Gibbons:** Ers iddi gael ei chyflwyno yn 2001, mae'r gronfa anghydraddoldebau iechyd wedi cefnogi portffolio o 67 o brosiectau ac mae 61 ohonynt yn dal i weithredu. Mae'r prosiectau a gyllidwyd yn canolbwyntio ar glefyd coronaidd y galon ac maent yn cyfrannu tuag at roi'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar waith. Mae'r prosiectau'n helpu pobl mewn cymunedau difreintiedig i wella eu hiechyd drwy sgrinio ac asesu risg, rhoi cyngor am newid ffordd o fyw (yn cynnwys maeth, rhoi'r gorau i ysmygu ac ymarfer) a sefydlu rhaglenni adsefydlu cardiaidd.

Mae prosiect 'Clefyd Coronaidd y Galon Tor-faen' yn gwella ansawdd y gofal i gleifion sydd â chlefyd y galon a phobl y mae perygl iddynt ddatblygu'r clefyd. Mae cofrestri clefyd coronaidd y galon wedi cael eu datblygu ym mhob un o'r 14 meddygfa meddyg teulu yn y fwrdeistref ac mae systemau galw a galw'n ôl da wedi cael eu sefydlu. Nod y prosiect yw cynnig adolygiadau rheolaidd i tua 4,000 o gleifion yn ardal Tor-faen. Mae'r cynllun atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff, 'Make it Fit', wedi cael ei fabwysiadu fel peilot cenedlaethol gan y Gymdeithas Brydeinig Adsefydlu Cardiaidd. Cafodd y cynllun ei ailstrwythuro ym mis Ionawr 2006 a'i ailenwi'n 'Exercise for Life—Heart Fit Programme' yn unol â'r rhaglenni adsefydlu cardiaidd cam III.

Mae'r tabl isod yn manylu ar y dyraniadau i'r byrddau iechyd lleol hyd yma:

(D.S. Caiff pob dyraniad o'r gronfa anghydraddoldebau iechyd ei wneud drwy'r byrddau iechyd lleol a'u trosglwyddo i'r timau prosiect perthnasol mewn, er enghraifft, llywodraeth leol, practisiau meddygon teulu, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ac ati.

**Dyraniadau'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd 2001-06**

| **Bwrdd Iechyd Lleol** | **Cyfanswm y dyraniadau (£ miliwn)** |
|---|---|
| Blaenau Gwent | £1,686 |
| | |

| | |
|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | £1,176 |
| Caerffili | £0.987 |
| Caerdydd | £1,669 |
| Sir Gaerfyrddin | £1,479 |
| Ceredigion | £0.387 |
| Sir Ddinbych | £1,013 |
| Sir y Fflint | £0.669 |
| Gwynedd | £0.704 |
| Merthyr Tudful | £1,280 |
| Castell-nedd Port Talbot | £1,473 |
| Casnewydd | £1,523 |
| Sir Benfro | £0.750 |
| Powys | £0.796 |
| Rhondda Cynon Taf | £2,225 |
| Swansea | £0.963 |
| Tor-faen | £0.414 |
| Bro Morgannwg | £0.407 |
| Wrecsam | £1,290 |
| Ynys Môn | £0.604 |
| **Cyfanswm** | **£21,495** |

1. Mae hyn yn cynnwys cyllid a ddyrannwyd ym mis Mehefin 2006. Bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu ym mis Rhagfyr 2006.

2. Gwnaed dyraniadau yn 2001-02 a 2002-03 drwy'r awdurdodau iechyd, ond maent wedi cael eu dosrannu i'r bwrdd iechyd lleol perthnasol yn y tabl.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel yr ariannu ar gyfer hosbisau ar draws Cymru? (WAQ48787)

**Brian Gibbons:** Gofynnodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am wybodaeth am y gwariant ar ofal lliniarol yng Nghymru yn gynharach eleni ac yr wyf wedi amgáu papur HSS(2)-04-06(p) a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn manylu ar y gwariant dros y tair blynedd diwethaf.

Fel y gwelwch o'r papur hwnnw, yr oedd gwaith i gael ei wneud i ganfod beth yw'r anawsterau yn ymwneud â'r ddarpariaeth gofal lliniarol yng Nghymru, yn cynnwys yr angen i ymchwilio i'r bylchau yn y ddarpariaeth honno yn ogystal â'r materion cyllido cysylltiol. Mae adolygiad gwasanaethau sylfaenol ar y gweill ar hyn o bryd a fydd yn darparu argymhellion am y ffordd orau o gau'r bylchau.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am allu cleifion yn Ne Powys i gael gafael ar wasanaethau trawma a damweiniau ac achosion brys a weithredir gan Ymddiriedolaeth GIG Gwent os cytunir ar y cynlluniau i ddatblygu'r ganolfan drawma newydd? (WAQ48802)

**Brian Gibbons:** Dan gynigion 'Clinical Futures' bydd y rhan fwyaf o wasanaethau brys i drigolion de Powys sydd ar hyn o bryd yn defnyddio Ysbyty Nevill Hall yn dal i gael eu darparu yn ardal y Fenni yn yr ysbyty cyffredinol lleol newydd. Mewn argyfyngau mwy difrifol neu achosion trawma bydd angen i'r cleifion hyn fynd i'r ganolfan gofal critigol ac arbenigol—un ai'n uniongyrchol neu ar ôl cael eu hasesu yn yr ysbyty cyffredinol lleol.

Cafodd ystyriaeth lawn ei rhoi i fynediad i'r ganolfan gofal critigol ac arbenigol i gleifion o dde Powys yn y rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd ar gyfer 'Clinical Futures' ac wrth benderfynu ar y lleoliad priodol i'r ganolfan gofal critigol ac arbenigol.

Mae lleoliad arfaethedig y ganolfan gofal critigol ac arbenigol yng nghanol 'Gwent' gerllaw Croesyceiliog a chyda mynediad hawdd oddi ar yr A4042. Penderfynwyd ar hynny drwy ddadansoddiad amseroedd teithio a gyflawnwyd gan arbenigwyr strategaeth iechyd annibynnol a gwrandawyd hefyd ar banel cleifion ac uwch staff clinigol yr ymddiriedolaeth. Comisiynwyd yr astudiaeth i sicrhau y bydd y lleoliad yn darparu'r mynediad gorau posibl i holl boblogaeth y dalgylch yn y dyfodol. Rhoddwyd pwysiadau ychwanegol yn y dadansoddiad i siwrneiau hwy o gymunedau mwy anghysbell i sicrhau na fydd cymunedau llai a mwy gwasgaredig o dan anfantais, ac i sicrhau y gallant barhau i gyrchu at wasanaethau mewn modd diogel ac amserol.

Bydd yr ymddiriedolaeth yn awr yn datblygu strategaeth drafnidiaeth gynhwysfawr i gyd-fynd â chyfluniad newydd y gwasanaethau.

**Michael German:** A fyddech cystal â darparu gwybodaeth am yr amserlen debygol ar gyfer dechrau defnyddio'r brechlyn Gardasil yng Nghymru? (WAQ48803)

**Brian Gibbons:** Mae'r Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, grwp arbenigol annibynnol sy'n cynghori pob un o bedair adran iechyd llywodraethau'r DU, wrthi'n adolygu'r defnydd o frechlyn firws papiloma dynol yn y DU. Er bod y cydbwyllgor yn ymwybodol o ddiddordeb cynyddol y cyhoedd yn y brechlyn hwn, dim ond ar ôl gwneud asesiad llawn o'r holl dystiolaeth sydd ar gael y gwneir unrhyw argymhellion ynglyn â'i ddefnyddio. Nid oes amserlen ffurfiol i'r broses hon. Dim ond ar ôl cael cyngor arbenigol y prif gydbwyllgor y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud unrhyw benderfyniadau polisi am y brechlyn.

**Helen Mary Jones:** Ar gyfer pob Ymddiriedolaeth GIG, a wnaiff y Gweinidog nodi canran gwelyau'r GIG sy'n cael eu llenwi oherwydd oedi wrth drosglwyddo gofal? (WAQ48807)

**Brian Gibbons:** Mae'r ffigurau'n cynnwys oedi ym mhob sefydliad lle nad yw unigolyn yn y lleoliad mwyaf priodol. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, lle mae unigolyn yn barod i symud i sefydliad GIG arall i gael triniaeth sy'n parhau a lle nad yw'r sefydliad cyfredol yr un mwyaf priodol i'w anghenion. Gall hefyd gynnwys sefyllfaoedd lle nad oes lle addas ar gael neu lle mae unigolyn yn gwrthod symud i sefydliad a fyddai'n gweddu orau i'w anghenion fel yr aseswyd hwy.

Yn unol â'ch cais, mae'r tabl isod yn manylu ar y nifer o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal fel canran o'r gwelyau sydd ar gael yn ddyddiol ar gyfartaledd fesul Ymddiriedolaeth, yn unol â chyfrifiad mis Hydref 2006.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gofal Iechyd Powys | 30 | 9.2% | 326.8 |
| Caerdydd a'r Fro | 185 | 8.3% | 2,232.9 |
| Sir Benfro a Derwen | 37 | 7.1% | 519.9 |
| Felindre | 4 | 6.5% | 61.6 |
| Gofal Iechyd Gwent | 128 | 5.8% | 2,205.7 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru | 54 | 5.7% | 944.6 |
| Pontypridd a Rhondda | 52 | 5.7% | 912.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 37 | 5.6% | 661.1 |
| Abertawe | 85 | 5.1% | 1,681.8 |
| Gogledd Morgannwg | 32 | 4.6% | 703.0 |
| Bro Morgannwg | 37 | 3.0% | 1,249.1 |
| Gogledd Orllewin Cymru | 24 | 2.2% | 1,108.5 |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 4 | 1.8% | 224.0 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 13 | 1.3% | 977.0 |
| **Cyfanswm yr Achosion o Oedi** | **722** | **5.2%** | **13,807.9** |

(a) Cyfrifwyd o'r nifer o welyau wedi'i staffio a oedd ar gael ar gyfartaledd bob dydd yn 2005-06. (Ffynhonnell: Bwletin Ystadegol SB 68/2006)

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw gyhoeddiadau a gynhyrchwyd gan yr Adran Addysg yn 2000 ynghylch effaith defnyddio ffonau symudol ar iechyd? (WAQ48811)

**Brian Gibbons:** Ydwyf, cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Mobile Phones and Health' ar y cyd â'r Adran Iechyd, Gweithrediaeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn 2000.

**Helen Mary Jones:** Faint o academyddion meddygol a gyflogir ar hyn o bryd gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ac eithrio ysgol feddygol Caerdydd? (WAQ48813)

**Brian Gibbons:** Yn 2004-05 cofnodwyd bod gan 25(a) o aelodau staff gontract academaidd clinigol mewn canolfannau cost meddygol clinigol y tu allan i Brifysgol Caerdydd.

(a) Yn cyfateb i berson llawn—gall unigolion ddal mwy nag un contract a gall pob contract olygu mwy nag un gweithgaredd gwahanol. Caiff y nifer o staff eu rhannu rhwng pob gweithgaredd. Seiliwyd ar y staff hynny oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr 2004.

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, cofnod staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch dyddiad llofnodi'r contract ar gyfer pob prosiect PFI gyda'r GIG yng Nghymru? (WAQ48814)

**Brian Gibbons:** Mae'r bartneriaeth gyhoeddus-breifat wedi cyllido 11 o gynlluniau, a oedd yn weithredol yn 2005-06, yn GIG Cymru. Cafodd y manylion eu cynnwys yng nghyfrifon cyhoeddedig blynyddol pob ymddiriedolaeth GIG am 2005-06 a nodir detholiadau ohonynt isod:

| **Ymddiriedolaeth GIG** | **Cynllun** | **Dyddiad dechrau'r contract** |
|---|---|---|
| Bro Morgannwg | Ysbyty Baglan | 12 Mai 2000 |
| Caerdydd a'r Fro | Ysbyty Dewi Sant | 1 Chwe 2002 |
| Sir Gaerfyrddin | Cynllun Rheoli Ynni dan Gontract | 29 Ebrill 1996 |
| Conwy a Sir Ddinbych | Uned yr Arennau | Medi 2004 |
| Gwent | Ynni Ysbytai Casnewydd | 1 Tach 1999 |
| Gwent | Ysbyty Cymunedol Cas-gwent | 13 Chwe 1998 |
| Gwent | Cynllun Ynni Ysbyty Nevill | 18 Rhag 2001 |
| Gwent | Uned Llawfeddygaeth Ddydd Nevill Hall | 20 Mai 1998 |
| Gogledd Morgannwg | Gwaith gwres a phwer cyfunedig | 1 Ebrill 2004 |
| Sir Benfro a Derwen | Gwaith gwres a phwer cyfunedig | 1 Ebrill 1996 |
| Pontypridd a Rhondda | Llety staff yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 9 Hyd 1998 |

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch pob prosiect PFI gyda'r GIG yng Nghymru a ddechreuodd cyn 1999? (WAQ48815)

**Brian Gibbons:** Cyllidodd y Fenter Cyllid Preifat bum cynllun yn GIG Cymru, a oedd yn weithredol yn 2005-06, cyn 1999. Cafodd y manylion eu cynnwys yng nghyfrifon cyhoeddedig blynyddol pob ymddiriedolaeth GIG am 2005-06 a nodir detholiadau ohonynt isod:

| **Ymddiriedolaeth GIG** | **Cynllun** | **Dyddiad dechrau'r contract** |
|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | Cynllun Rheoli Ynni dan Gontract | 29 Ebrill 1996 |
| Gwent | Ysbyty Cymunedol Cas-gwent | 13 Chwe 1998 |
| Gwent | Uned Llawfeddygaeth Ddydd Nevill Hall | 20 Mai 1998 |
| Sir Benfro a Derwen | Gwaith gwres a phwer cyfunedig | 1 Ebrill 1996 |
| Pontypridd a Rhondda | Llety staff yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 09 Hyd 1998 |

**Helen Mary Jones:** Beth yw'r gymhareb gyfredol ar gyfer academyddion â chymwysterau meddygol a myfyrwyr meddygol yn ysgol feddygol Caerdydd? (WAQ48816)

**Brian Gibbons:** Yn 2004-05 yr oedd 2,970 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar gyrsiau meddygaeth gyn-glinigol a chlinigol ym Mhrifysgol Caerdydd.

Yn yr un flwyddyn cofnodwyd bod gan 150 (a) o aelodau staff gontract academaidd clinigol yn y ganolfan gost feddygol glinigol.

Mae hyn yn cynrychioli cymhareb o 1 aelod staff academaidd clinigol i 20 o fyfyrwyr meddygol.

(a) Yn cyfateb i berson llawn—gall unigolion ddal mwy nag un contract a gall pob contract olygu mwy nag un gweithgaredd gwahanol. Caiff y nifer o staff eu rhannu rhwng pob gweithgaredd. Seiliwyd ar y staff hynny oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr 2004.

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, cofnod staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch.

**Jonathan Morgan:** Faint o gyllid ar gyfer pob myfyriwr y mae Ysgol Ffisiotherapi Caerdydd yn ei dderbyn yn y flwyddyn ariannol bresennol, a beth yw'r manylion ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ48827)

**Brian Gibbons:** Mae'r lefel o gyllid y mae Ysgol Ffisiotherapi Caerdydd yn ei gael ar gyfer pob myfyriwr fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2006-07 | £6,153 |

| | |
|---|---|
| 2005-06 | £5,659 |
| 2004-05 | £5,300 |
| 2003-04 | £5,135 |
| 2002-03 | £4,945 |
| 2001-02 | £4,710 |
| 2000-01 | £4,707 |
| 1999-2000 | £4,742 |

**Jonathan Morgan:** Faint o leoedd hyfforddiant ffisiotherapi a ddarparwyd yn Ysgol Ffisiotherapi Caerdydd yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf o'u cymharu â nifer y lleoedd a gomisiynwyd drwy'r byrddau iechyd lleol? (WAQ48828)

**Brian Gibbons:** Yr oedd y nifer o leoedd hyfforddiant ffisiotherapi a ddarparwyd ar gyfer Caerdydd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2005-06 | 299 |
| 2006-07 | 269 |

Mae'r rhain yn cynnwys y cwrs amser llawn, y cwrs ffisiotherapi cymysg a'r cwrs carlam. Nid oes lleoedd yn cael eu comisiynu drwy'r byrddau iechyd lleol.

**Jonathan Morgan:** Faint o oriau o ofal cartref a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2005-06 a sut mae hyn yn cymharu â'r ffigurau a gynhyrchwyd bob blwyddyn er 1999? (WAQ48830)

**Brian Gibbons:** Dangosir y nifer o oriau o ofal cartref a ddarparwyd gan awdurdodau lleol i ddefnyddwyr gwasanaethau oedolion bob blwyddyn rhwng 1999-00 a 2005-06 yn y tabl isod.

| | **Gofal cartref i oedolion (1)**<br><br>**miliynau o oriau** |
|---|---|
| 1999-2000 | 11.63 |
| 2000-01 | 12.45 |
| 2001-02 | 12.64 |
| 2002-03 (2) | 11.87 |
| 2003-04 | 12.72 |
| 2004-05 | 12.47 |

| | |
|---|---|
| 2005-06 | 12.80 |

Ffynhonnell: Datganiadau blynyddol AS3 oddi wrth yr awdurdodau lleol.

1. Mae’r cyfanswm oriau yn cynnwys oriau a ddarperir yn uniongyrchol gan staff awdurdodau lleol a hefyd oriau o ofal a brynir gan awdurdodau lleol oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau annibynnol.

2. Yr oedd y gostyngiad yn yr oriau rhwng 2001-02 a 2002-03 i’w briodoli’n bennaf i ostyngiad yn yr oriau a adroddwyd gan Gaerdydd o 3.21 miliwn o oriau i 1.95 miliwn o oriau. Yr oedd hyn oherwydd adolygiad o’r oriau a gâi eu cofnodi ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth anableddau dysgu a oedd yn denantiaid eu hunain. Yn 2002-03 cofnodwyd yr oriau gwirioneddol lle’r oeddid wedi tybio cyn hynny bod y defnyddwyr hyn yn cael 168 o oriau yr wythnos o ofal cartref = 24 awr x 7.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru’r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47900) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ47898.

**Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw ei Adran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â Chwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw’r Adran yn graddio neu ddosbarthu Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ448748) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48749.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Gweinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48756) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48761.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfrannu at y seminarau i hyrwyddo cynllun y Tasglu Respect? (WAQ48788)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Cynllun gan y Swyddfa Gartref yw’r Tasglu Respect ac nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd rhan yn y seminarau i’w hyrwyddo.

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i newid y rheolau i adael i bobl o du allan i ardal ddatgan eu bod yn ddigartref yn yr ardal honno? (WAQ48812)

**Edwina Hart:** Nid oes gennym gynlluniau penodol i ddeddfu ynglyn â’r cysylltiad lleol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i adolygu’r angen am ddeddfwriaeth newydd yn ymwneud â digartrefedd.

## Cwestiynau i’r Trefnydd

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47892) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ47898.

**Nick Bourne:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i hwyluso llywodraeth agored? (WAQ48720)

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Er mis Mai 2001 mae'r polisi sy'n cael ei adlewyrchu yn ein cod ymarfer ar ganiatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth wedi disgrifio sut yr ydym yn mynd y tu hwnt i'r gofynion cyfreithiol sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a rheoliadau gwybodaeth amgylcheddol 2004.

Yr ydym wedi cwblhau bron i 1,400 o geisiadau er 1 Ionawr 2005 pan gychwynnodd Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r rheoliadau gwybodaeth amgylcheddol. Yr ydym yn dal i sicrhau bod y profiad o ddelio â cheisiadau yn cael ei rannu ymysg y staff drwy hyfforddiant parhaus a chymuned faes.

Yr ydym yn adolygu ein gweithdrefn i ymdrin â cheisiadau am wybodaeth i sicrhau bod y gwersi a ddysgir yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

Yr ydym hefyd bron â gorffen adolygu ein cynllun cyhoeddi, sy'n nodi'r categorïau o wybodaeth yr ydym yn eu cyhoeddi fel mater o drefn, ac yr wyf yn falch ein bod wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am ddrafft. Yn dilyn adborth oddi wrth ddefnyddwyr, bwriedir i'r cynllun diwygiedig gynnwys polisi codi tâl symlach a rhoi mwy o eglurder o ran fformatau amgen y mae modd i bobl ag anableddau eu defnyddio. Bydd y cynllun diwygiedig yn arwain at fynediad haws at ystod o wybodaeth—yn cynnwys gwybodaeth am dwristiaeth, y cwricwlwm addysg, menter a'n canllawiau mewnol ynglyn ag adnoddau dynol.